# Adroddiad Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg

Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd & Môn

Mai 2013

CYNNWYS

| | | |
|---|---|---|
| 1. | **CYFLWYNIAD** | **1** |
| 2. | **ASESIAD ARDRAWIAD IEITHYDDOL O'R CDLL – METHODOLEG ASESU** | **1** |
| 3. | **ASESIAD O'R HOFF STRATEGAETH** | **8** |

**ATODIADAU**

**D 1** – Tabl Matrics Asesiad Safleoedd
**ATODIAD 2 & 2a** – Data Gwaelodlin yr Iaith Gymraeg
**ATODIAD 3** – Methodoleg Asesiad yr Hoff Strategaeth
**ATODIAD 4 –** Mapiau Tueddiadau'r Iaith Gymraeg
**ATODIAD 5 –** AEI o'r Hoff Strategaeth

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cynrychioli'r asesiad o Hoff Strategaeth Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd. Mae'r Hoff Strategaeth yn darparu gweledigaeth ac amcanion y Cynllun, ynghyd â'r opsiynau twf a dosbarthu a ffafrir. Mae'r Strategaeth hefyd yn cynnwys polisïau strategol fydd yn cyflawni'r weledigaeth a'r amcanion a nodwyd. Bydd hefyd yn cynnwys y safleoedd datblygu allweddol, sef y safleoedd datblygu mwyaf sydd yn hanfodol ar gyfer llwyddiant y strategaeth ddatblygu. Mae'r Asesiad Effaith Ieithyddol hwn yn cynnwys asesiad o'r polisiau strategol ac fe fydd hefyd yn cynnwys asesiad o safleoedd strategol maes o law. Hysbysodd yr asesiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd am yr Hoff Strategaeth.

## 2. ASESIAD ARDRAWIAD IEITHYDDOL O'R CDLL - METHODOLEG ASESU

### Y Broses Asesu Effaith Ieithyddol

2.1 Cydnabyddir bod y maes asesiadau ieithyddol yn bwnc trafod ac yn arbenigedd sy'n dal i ddatblygu, yn enwedig yng nghyd-destun Cynlluniau Datblygu.

2.2 Cydnabyddir bod Asesiad Effaith Ieithyddol (AEI) CDLl ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd yn broses ailadroddus ac y bydd angen adolygu'r asesiad pan fo agweddau o'r cynllun yn newid wrth symud tuag at greu cynllun adnau. Yn ogystal, dylid nodi bod y fethodoleg AEI yn broses oddrychol sy'n bwriadu sefydlu'r effeithiau tebygol a ddaw yn sgil cynnig neu bolisi datblygu.

2.3 Ar y pwynt hwn, dylid nodi y bydd y CDLl ar y Cyd yn destun Arfarniad Cynaladwyedd (AC). Bydd y Fframwaith AC, a fydd yn cael ei ddefnyddio yn y gwahanol gamau o'r cynllun yn cynnwys amcan sydd â'r bwriad o ddiogelu'r iaith a gwella sefyllfa'r iaith Gymraeg. Felly, bydd proses yr AC yn diogelu'r iaith Gymraeg rhag datblygiadau andwyol.

2.4 Er mwyn asesu effaith y CDLl ar y Cyd sydd ar y gorwel ar yr iaith, mae'n bwysig deall natur y defnydd o'r iaith Gymraeg ynghyd â nodweddion cymunedol y ddau ardal Awdurdod Cynllunio Lleol ac mae angen casglu ystadegau perthnasol sydd ar gael yn lleol ac yn genedlaethol i wneud asesiad clir. Bydd hyn yn sicrhau fod penderfyniadau yn seiledig ar ddata gwaelodlin cadarn, deallus a chywir. Casglwyd data ar lefel ward ar amrediad o newidynnau a ystyrir yn bwysig o ran dylanwadu ar y defnydd o'r iaith Gymraeg (Atodiad 2, ac fe geir mapiau o'r data yma yn Atodiad 4). Mae Atodiad 2a yn cynnwys data o Gyfrifiad 2011. Gan nad yw data o Gyfrifiad 2011, sy'n berthnasol i'r iaith Gymraeg yn gyflawn ar hyn o bryd, mae rhai o'r colofnau yn y tabl wedi eu gadael yn wag. Pan fydd y data hwn ar gael, fe fydd Atodiad 2a yn disodli Atodiad 2.

2.5 Gellir gwahanu'r Asesiad Effaith Ieithyddol yn dri cham gwahanol yn ystod datblygiad y Cynllun:

i) Y Strategaeth a Ffafrir
ii) Safleoedd Datblygu
iii) Cynllun Adnau

**Y Strategaeth a Ffafrir (i)**

2.6 Mae'r lefel o fanylder sydd wedi'i chynnwys yn y strategaeth a ffafrir yn caniatáu i ni ddefnyddio'r 18 o gwestiynau sydd wedi'u cynnwys yn Atodiad C, "Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen (2005)" fel fframwaith ar gyfer asesu'r effaith ar yr iaith Gymraeg (gweler atodiad 3 y ddogfen hon).

2.7 Wrth i opsiynau strategol ymdrin ag ardaloedd mwy helaeth yn hytrach na safleoedd unigol o fewn anheddau, bydd angen deall y materion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar raddfa ofodol fwy helaeth.

2.8 Bydd deall natur yr iaith Gymraeg, ynghyd â ffactorau cysylltiedig megis graddfa, yn golygu y gellir asesu effaith bosib yr opsiynau strategol ar yr iaith Gymraeg. Darperir eglurhad o sut mae opsiynau'n perfformio dan bob maen prawf. Mae'r cam hwn wedi ei gwblhau erbyn hyn, ac mae asesiad o'r Hoff Strategaeth wedi ei gynnwys yn Atodiad 5.

**Asesiad Effaith Ieithyddol Safleoedd (ii)**

2.9 Er mwyn canfod pa dir sydd ar gael i fodloni anghenion datblygu Ynys Môn a Gwynedd, agorwyd Cofrestr Safleoedd Arfaethedig (CSA) ble roedd datblygwyr, tirfeddianwyr a'r cyhoedd yn gallu cyflwyno tir sy'n bosib i'w gynnwys o fewn y cynllun; boed hynny'n safleoedd i'w datblygu yn y dyfodol, newid defnydd neu safleoedd sydd angen eu gwarchod am eu tirwedd, am eu bod yn fan agored neu oherwydd eu gwerth cadwriaethol arbennig.

2.10 Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru (LlC) sydd wedi'u cynnwys yn Llawlyfr y CDLl (2006), fe aseswyd asesu pob safle a gyflwynwyd, yn gyntaf i weld p'un a ydynt yn addas i'w datblygu ac y gellir eu datblygu, ac yn ail i bennu p'un a ydynt yn gydnaws â strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol sydd ar y gorwel.

2.11 Roedd y fethodoleg yn cynnwys meini prawf i ddiystyru safleoedd oedd yn llai na maint penodol, sy'n groes i bolisi cenedlaethol neu sydd mewn lleoliad anaddas, e.e. oherwydd bod rhwystrau annerbyniol yno, megis bod y safle'n agored i lifogydd. Yn ogystal, roedd y broses werthuso safleoedd yn ystyried gofyn y Cyngor i gynnal arfarniadau amrywiol, yn cynnwys Arfarniad Cynaladwyedd (AC). Mae'r AC yn cynnwys amcan sy'n ceisio gwarchod yr iaith Gymraeg rhag effeithiau andwyol datblygiadau. Fodd bynnag, teimlir

bod yr amcan unigol hwn yn annigonol i ymdrin â'r mater yn gynhwysfawr a bod angen defnyddio Asesiad Effaith Ieithyddol mwy manwl yn ystod gwahanol gamau wrth ddatblygu'r cynllun.

2.12 Bydd y safleoedd sy'n weddill yn destun Asesiad Effaith Ieithyddol fel y disgrifir isod maes o law.

2.13 Gall defnyddio Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg wrth ddewis safleoedd i ddatblygu fod yn broblemus oherwydd y diffyg manylion ynghylch math a graddfa'r datblygiad sy'n cael ei gynnig. Yn ei hanfod, yr hyn sy'n cael ei asesu yn ystod y cam hwn yw maint a lleoliad tir ble y gall math penodol o ddatblygiad ddigwydd. Yn y cyd-destun hwn, mae'n anodd rhagweld maint penodol neu wir fath y datblygiad, ac felly'r tebygrwydd p'un a geir unrhyw effaith andwyol ar yr iaith Gymraeg.

2.14 Er mwyn asesu'r effaith bosib ar yr iaith Gymraeg mor gywir â phosib, bydd pob safle sy'n cael ei gynnig ar gyfer datblygiad tai yn cael ei asesu'n seiliedig ar y dybiaeth bod dwysedd tai o 30 uned fesul hectar (ufh) (yr uned fesur a ddefnyddir yn Ynys Môn yw dwysedd fesul hectar (dfh)), yn cael eu datblygu ar y safle. Defnyddir hyn fel y dwysedd datblygu cyffredinol ar gyfer pob safle a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd sydd wedi'i fabwysiadu a'r Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn y rhoddwyd y gorau iddo. Fodd bynnag, dylid cofio y bydd y gwir ddwysedd ar gyfer safle datblygu yn dibynnu ar sawl ffactor, yn cynnwys lleoliad, topograffi a chymeriad cyffredinol yr ardal o amgylch y safle. Felly, bydd y dybiaeth o 30 dfh yn cael ei defnyddio'n llac ac fel canllaw yn unig.

2.15 Gan dybio bod dwysedd o 30 uned fesul hectar yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pob safle, gellir amcangyfrif nifer yr unedau a allai gael eu cynnwys ar bob safle arfaethedig a gellir gwneud tybiaeth mwy cywir o ran yr effaith bosib ar yr iaith Gymraeg. Yn unol â'r canllawiau sydd wedi'u cynnwys yn CCA 'Cynllunio a'r Iaith Gymraeg' Gwynedd ac Ynys Môn, dim ond safleoedd all ddal 5 uned neu fwy yn seiliedig ar y canllaw 30 uned fesul hectar fydd yn destun Asesiad Ieithyddol.

2.16 Bydd meini prawf asesu gyda 12 o gwestiynau yn darparu'r fframwaith sylfaenol ar gyfer ystyried safleoedd arfaethedig yn Awdurdodau Cynllunio Lleol Ynys Môn a Gwynedd. Mae'r meini prawf asesu wedi'u haddasu o'r fframwaith asesu ar gyfer Datganiadau Ieithyddol ac Asesiad Effaith Ieithyddol fel yr amlinellir yn y CCA 'Cynllunio a'r Iaith Gymraeg' sydd wedi'u mabwysiadu:

| | **Cyffredinol (pob math o ddatblygiad)** |
|---|---|
| 1 | Sut fydd datblygiad ar y safle'n gyson gydag amcanion polisi cynllunio cenedlaethol o ran cymdeithas, diwylliant a lles economaidd fel sydd wedi ei amlinellu ym Mholisi Cynllunio Cymru? |

| | |
|---|---|
| 2 | Sut fyddai datblygu ar y safle'n bodloni anghenion lleol a chymunedol? |
| 3 | A fyddai datblygiad ar y safle'n cynnal neu ychwanegu'n uniongyrchol / anuniongyrchol at gyfleusterau cymunedol yn yr anheddle / ardal? |
| 4 | Oes unrhyw dystiolaeth yn bodoli sy'n dangos y byddai datblygu ar y safle yn cael ei gefnogi gan y gymuned leol? |
| | **Nodweddion y Boblogaeth (pob math o ddatblygiad)** |
| 5 | A fyddai datblygu ar y safle yn denu newydd-ddyfodiaid i'r ardal ac yn arwain at ostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg? |
| 6 | A all datblygu ar y safle gyfrannu at allfudo o'r ardal? |
| 7 | A all datblygu ar y safle arwain at newid strwythur oedran y gymuned? |
| | **Preswyl** |
| 8 | A all datblygiad preswyl ar y safle ddanfon cyfran rhesymol o dai fforddiadwy oherwydd ei faint a'i ddarpariaeth? |
| | **Cyflogaeth** |
| 9 | A fyddai datblygiad ar y safle gyfrannu at gynnal cyflenwad digonol o dir ar gyfer cyfleon cyflogaeth h.y. ni fyddai'n arwain at ormod o dir cyflogaeth yn cael gyflenwi? |
| | **Mesurau Lliniaru** |
| 10 | A fyddai'n bosib lliniaru unrhyw effeithiau negyddol? |

2.17 Er mwyn hwyluso asesiad deallus, gwneir penderfyniadau'n seiliedig ar y data sydd wedi'i gynnwys yn y tablau yn Atodiad 2. Mae'r ffigyrau 10% isaf ac uchaf ar gyfer pob dangosydd wedi'u hamlygu - mae hyn yn caniatáu ar gyfer dadansoddi'r data yn rhwydd er mwyn hwyluso gwneud penderfyniadau deallus. Felly, gwneir penderfyniadau yn seiliedig ar y data meintiol, gan ddefnyddio barn broffesiynol i bennu maint a thebygolrwydd effaith botensial datblygiad ar yr iaith Gymraeg. Cytunwyd drwy drafodaethau gyda swyddogion iaith perthnasol y dylid ystyried ardaloedd ble mae cyfran y boblogaeth o siaradwyr Cymraeg yn llai na 70% fel ardaloedd anghynaladwy i'r iaith Gymraeg a dylid ystyried hyn fel rhan o'r broses asesu. Fodd bynnag, dylid nodi ar y pwynt hwn na fydd modd asesu pob safle arfaethedig yn erbyn rhai o'r meini prawf oherwydd y wybodaeth gyfyngedig sydd ar gael i seilio'r tybiaethau arni. Felly, bydd llawer o'r broses wneud penderfyniadau'n seiliedig ar dybiaethau sy'n seiliedig ar y wybodaeth waelodlin.

2.18 Yna defnyddir tabl matrics (fel y dengys yn Atodiad 1) i asesu p'un a yw pob safle'n debygol o gael effaith andwyol gan ystyried y 12 maen prawf. Defnyddir y graddau lliwiau coch a gwyrdd yn y matrics gwerthuso safle i ddynodi "ie/na". Mae defnyddio graddau lliwiau, yn hytrach na rhifau, yn osgoi'r temtasiwn i adio a chyfrifo sgoriau ar gyfer safleoedd unigol. Mae

unrhyw arfarniad megis hwn yn gwbl ansoddol ac mae'n dibynnu ar farn broffesiynol.

2.19 Felly, dim ond i ddarparu darlun gweledol o'r matricsau y dylid defnyddio'r graddau lliwiau a'r cwbl a wnânt yw rhoi syniad i ni am rinweddau cyffredinol safle unigol.

| | |
|---|---|
| ++ | **Positif Iawn** |
| + | **Positif** |
| 0 | **Niwtral** |
| +/- | **Dibynnol ar weithredu'r opsiwn** |
| - | **Negatif** |
| -- | **Negatif Iawn** |

2.20 Unwaith y bydd y matricsau safle unigol wedi'u cwblhau, crynhoir y raddfa liwiau a ddynodwyd ar gyfer pob maen prawf mewn tabl cymharu - bydd hwn yn rhoi cyfle i gymharu safleoedd wrth edrych ar y tabl. Yna, defnyddir barn broffesiynol i bennu p'un a yw pob safle arfaethedig yn addas i'w gynnwys yn y cynllun, yn seiliedig ar berfformiad cyffredinol y safle yn erbyn y meini prawf asesu. Yn ogystal, darperir crynodeb byr o'r cyfiawnhad am y penderfyniad ar bob safle. Pan nodir effeithiau andwyol ar yr iaith Gymraeg, os yw'n bosib a phriodol gwneud hynny, dylid nodi mesurau lliniaru fel ffordd o leihau neu gael gwared ar unrhyw effaith bosib, gan wneud y safle'n addas i'w gynnwys yn y cynllun.

2.21 Ystyrir y ffactorau a ganlyn wrth wneud penderfyniadau ar hyfywdra safleoedd arfaethedig o ran yr iaith Gymraeg:

- Y gyfradd o siaradwyr Cymraeg
- Y raddfa gweithgarwch economaidd
- Newid yn y boblogaeth fesul categori oedran
- Cyfraddau mudo
- Cyfraddau fforddiadwyedd tai a phrisiau tai
- Cyfradd o ail gartrefi
- Cyfradd adeiladu tai newydd
- Capasiti ysgolion iaith Gymraeg
- Tueddiadau cymdeithasol yn cynnwys iechyd, trosedd a lles


**Asesiad Effaith Ieithyddol y Cynllun Adnau (iii)**

2.22 Yn ystod y cam Cynllun Adnau, bwriedir ymgymryd ag asesiad mwy 'generig' o'r Cynllun yn ei gyfanrwydd. Mae lefel y manylder sydd wedi'i gynnwys yn y Cynllun ar y cam hwn, yn cynnwys gweledigaeth y Cynllun, ei nodau, ei bolisïau strategol, a pholisïau a chynigion penodol, yn golygu y gellir ei asesu yn erbyn y 18 maen prawf sydd wedi'u cynnwys yn y broses Asesiad Effaith

Ieithyddol (gweler atodiad 3). Darperir eglurhad o sut mae cynllun yn perfformio dan bob maen prawf.

2.23 Crynhoir y broses sydd i'w dilyn yn y ffigwr isod:

| CAMAU ALLWEDDOL Y BROSES ASESU | SYLWADAU |
|---|---|




- Casglu data sy'n ymdrin â'r pum thema a amlinellir yn *Cynllunio a'r Iaith Gymraeg* (2005) – proffiliau lefel Ward a LHMA. Bydd y rhain yn ffurfio'r sail gwneud penderfyniadau yn yr asesiad.
- Casglu data am ddatblygiadau wedi'u monitro, e.e. nifer y tai a adeiladwyd.
- Bydd dadansoddi tueddiadau yn dangos sut mae gyrwyr newid posib wedi datblygu dros amser.
- Bydd asesu'r data ar draws tablau fel rhan o'r dadansoddiad gwaelodlin yn dangos y berthynas rhwng newidynnau.
- Adnabod y prif faterion sy'n codi o ddadansoddiad o'r waelodlin.
- Asesiad ansoddol yn seiliedig ar ddadansoddiad goddrychol gan ddefnyddio 18 maen prawf a bennwyd ymlaen llaw.
- Asesu safleoedd gan ddefnyddio 12 cwestiwn sy'n seiliedig ar feini prawf fel sail gwneud penderfyniadau. Diystyrir safleoedd y pennir eu bod yn debygol o gael effaith andwyol ar yr iaith Gymraeg yn seiliedig ar ddadansoddiad

| | |
|---|---|
| | goddrychol gan ddefnyddio data meintiol. |
| **Asesiad Effaith Ieithyddol y Cynllun Adnau** | ▪ Asesiad ansoddol yn seiliedig ar ddadansoddiad goddrychol gan ddefnyddio 18 maen prawf a bennwyd ymlaen llaw. |

**Crynodeb o sut y defnyddir asesiad effaith ieithyddol yn ystod gwahanol gamau wrth ddatblygu'r cynllun**

### Asesiad Safleoedd Arfaethedig

Ymdrin â'r materion sy'n briodol ar lefel safle, e.e.

- Fforddiadwyedd tai yn yr ardal
- Ystadegau iaith Gymraeg yr ardal
- Gweithgarwch economaidd yr ardal
- Patrymau mudo lleol

↓

### Y Strategaeth a Ffafrir a'r Opsiynau

Ceisio osgoi dyblygu diangen yn y gwaith ar asesiadau lefel safle a chanolbwyntio mwy ar y lefel rhanbarthol ac effeithiau generig gweithredu'r strategaeth, e.e.

- Dadansoddiad ystadegol ar lefel rhanbarthol megis ardaloedd LHMA
- Asesiad cyffredinol o'r amcanion a'r strategaeth

↓

### Y Cynllun Adnau

Mae'r asesiad ar y lefel hon yn ymdrin ag effeithiau 'generig' gweithredu'r strategaeth, e.e.

- Darpariaethau tai cyffredinol
- Strategaeth tir cyflogaeth
- Darparu cyfleusterau cymunedol

**Lefelau Manylder yr Asesiadau yn Gostwng** ↓

## 3. ASESIAD O'R STRATEGAETH A FFEFRIR

### Asesiad o'r Polisiau Strategol a'r Opsiynau a Ffafrir

3.1 Mae Hoff Strategaeth y CDLl ar y Cyd, yn ceisio cyflawni pedwar prif ddeilliant: uchafu cyfleoedd datblygu economaidd; tai i fodloni anghenion lleol; cryfhau cymunedau gwledig a threfol; ac ehangu asedau amgylcheddol yr ardal. Mae strategaeth anheddleoedd hefyd yn cael ei gynnwys ac amlinellir ym mha aneddiadau y bydd twf a buddsoddiad yn cael eu canolbwyntio. Mae'r strategaeth ofodol eang yn anelu at gyflawni'r deilliannau uchod drwy:

i) ganolbwyntio'r prif ddatblygiadau ac adfywio yn y prif Aneddiadau safleoedd strategol ynddynt;
ii) cefnogi datblygiad sy'n adlewyrchu maint, swyddogaethau a chapasiti amgylcheddol a diwylliannol rhwydwaith y gwahanol aneddiadau allweddol a'r pentrefi allweddol;
iii) cefnogi mân ddatblygiadau mewn pentrefi bychain diffiniedig ac ardaloedd gwledig, sy'n gymorth i gefnogi gwasanaethau a chyfleusterau mewn cymunedau lleol.

3.2 Fel yr amlinellwyd ym mharagraffau 2.6 – 2.8, cynhaliwyd asesiad o'r Hoff Strategaeth drwy ddefnyddio'r deunaw cwestiwn a gynhwysir yn Atodiad C "Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen (2005)." Mae asesiad manwl o'r Hoff Strategaeth wedi'i gynnwys yn Atodiad 5.

3.3 Yn gyffredinol, mae'r Hoff Strategaeth yn annhebygol o gael effaith andwyol ar yr iaith Gymraeg. Dengys yr asesiad nad yw'r strategaethau gofodol a thwf yn debygol o arwain at newidiadau sylweddol yn strwythur economaidd-gymdeithasol yr ardal a allai effeithio ar hyfywdra'r iaith Gymraeg. Dylai'r amrediad o gyfleoedd, a ddarperir gan y Strategaeth, wella atyniad yr ardal. Mae'r rhain yn cynnwys: cymysgedd o wahanol fathau o dai (gan gynnwys tai fforddiadwy) sy'n bodloni anghenion lleol, twf economaidd lleol, cyfleusterau cymunedol, gwelliannau amgylcheddol ynghyd â diogelu a mwyhau asedau diwylliannol gan gynnwys yr iaith Gymraeg. Yn ei dro, dylai hyn gynorthwyo i gadw gafael ar y boblogaeth bresennol sy'n siarad Cymraeg a denu preswylwyr Cymraeg iaith gyntaf yn ôl i'r ardal hyd yn oed.

### Asesiad o Safleoedd Strategol

3.4 Rhwng 11 Hydref 2011 ac 13 Chwefror 2012, cafodd datblygwyr, tirfeddianwyr a'r cyhoedd gyfle i gyflwyno tiroedd posib i'w cynnwys yn y cynllun, naill ai fel safleoedd ar gyfer eu datblygu neu newid eu defnydd yn y dyfodol, neu fel safleoedd oedd angen eu gwarchod oherwydd eu tirweddau arbennig, mannau agored neu werth cadwriaethol. Ar ôl i rai safleoedd gael eu cyflwyno'n hwyr, penderfynwyd derbyn safleoedd a gyflwynwyd yn hwyr hyd at 31/10/12. Roedd methodoleg yr asesiad safleoedd arfaethedig yn cynnwys meini prawf a ddefnyddiwyd i asesu pob safle yn unigol ac yna i hidlo'r safleoedd a ystyriwyd yn anaddas i'w datblygu.

3.5 Mae'r safleoedd strategol yn safleoedd mawr fydd yn cyfrannu'n sylweddol at strategaeth y CDLl ar y Cyd oherwydd eu natur, graddfa a lleoliad. Pan ddaw'r safleoedd ar gael, fe fyddent yn cael eu hasesu yn erbyn y deg maen prawf a gynhwysir yn y fethodoleg asesu yn yr ail bennod. Mae'n bwysig nodi bod yr iaith Gymraeg yn un o sawl ffactor sydd angen eu hystyried wrth benderfynu ar ba safleoedd i'w cynnwys. Pan nodir effeithiau andwyol tebygol ar yr iaith Gymraeg, rhoddir ystyriaeth p'un a fyddai mesurau lliniaru'n briodol i leddfu unrhyw effeithiau andwyol.

## ATODIAD 1

| | | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyf Safle** | **Lleoliad** | Sut fydd datblygiad ar y safle'n gyson gydag amcanion polisi cynllunio cenedlaethol o ran cymdeithas, diwylliant a lles economaidd fel sydd wedi ei amlinellu ym Mholisi Cynllunio Cymru? | Sut fyddai datblygu ar y safle'n bodloni anghenion lleol a chymunedol? | A fyddai datblygiad ar y safle'n cynnal neu ychwanegu'n uniongyrchol / anuniongyrchol at gyfleusterau cymunedol yn yr anheddle / | Oes unrhyw dystiolaeth yn bodoli sy'n dangos y byddai datblygu ar y safle yn cael ei gefnogi gan y gymuned leol? | A fyddai datblygu ar y safle yn denu newydd-ddyfodiaid i'r ardal ac yn arwain at ostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg? | A all datblygu ar y safle gyfrannu at allfudo o'r ardal? | A all datblygu ar y safle arwain at newid strwythur oedran y gymuned? | A all datblygiad preswyl ar y safle ddanfon cyfran rhesymol o dai fforddiadwy oherwydd ei faint a'i ddarpariaeth? | A fyddai datblygiad ar y safle gyfrannu at gynnal cyflenwad digonol o dir ar gyfer cyfleon cyflogaeth h.y. ni fyddai'n arwain at ormod o dir cyflogaeth yn cael gyflenwi? | A fyddai'n bosib lliniaru unrhyw effeithiau negyddol? |
| **1 ayb** | | | | | | | | | | | |

### ALLWEDD

| | |
|---|---|
| ++ | **Positif Iawn** |
| + | **Positif** |
| 0 | **Niwtral** |
| +/- | **Dibynnol ar weithredu'r opsiwn** |
| - | **Negatif** |
| -- | **Negatif Iawn** |

ATODIAD 2 - MATRICS ASESU WARDIAU

| |
|---|
| 15 ward isaf |
| 15 wards uchaf |

| Ardal | POBLOGAETH A DEMOGRAFFI | | | | | | | | | | | ECONOMI | | | TAI | | | | IECHYD A LLES | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | % Siaradwyr Cymraeg dros 3 oed (2001) | Siaradwyr Cymraeg % Newid 91-01 | Cyfanswm Poblogaeth % Newid 01-09 | Poblogaeth 0-19 oed % newid 01-09 | Poblogaeth 20-30 oed % newid 01-09 | Poblogaeth 35-64 oed % newid 01-09 | Poblogaeth 65+ oed % newid 01-09 | % Mudwyr (2001) | Mudwyr % Newid 91-01 | Geni yng Nghymru % | Geni yng Nghymru % Newid 91-01 | Yn Actif Economaidd (16-74 oed) % | Yn Actif Economaidd % Newid 91-01 | Incwm Aelwydydd Cymedr (Cyfartaledd) (2010) | % ail dai/tai haf (2001) | 2ail / Tai Haf % Newid 91-01 | Fforddiadwyedd Tai (cymhareb) (Mai 10-Ebrill 11) | Prisau Cyfartalog Tai (Tach 10-Ebrill 11) | Cyfradd - holl droseddau ac YGG bob 1,000 o bobl | % gyda Salwch Cyfyngiedig Hir-dymor (2001) |
| Diweddariad gyda Cyfrifiad 2011? (Appendix 2a) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | x | x | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | x | x | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cymru | 20.8 | 14.6 | 3.1 | -2.8 | 1.8 | 5.1 | 8.3 | 11.2 | | 75.4 | | 61.0 | 0.8 | £ 30,906 | 1.2 | -18.5 | 5.3 | £ 161,432 | 10.3 | 22.7 |
| Ynys Môn | 60.1 | -5.7 | 1.4 | -3.9 | -6.7 | 13.5 | 14.5 | 31.7 | 271.9 | 67.6 | -3.5 | 59.5 | -4.6 | £ 29,900 | 3.7 | -28.8 | 6.0 | £ 175,286 | 7.0 | 21.8 |
| Aberffraw / Rhosneigr | 57.9 | -11.5 | -4.2 | -20.1 | -16.1 | 7.0 | 13.7 | 10.8 | 3.3 | 61.4 | -10.2 | 54.3 | -15.7 | £ 23,963 / £ 29,028 | 20.5 | -3.7 | 5.5 / 8.7 | £ 167,955 / £ 269,750 | 0.0 / 8.3 | 25.7 |
| Amlwch Port / Amlwch Rural | 62.4 | -35.9 | -2.8 | -8.6 | -17.3 | 9.6 | 13.5 | 8.2 | -23.8 | 63.9 | -34.6 | 55.5 | -32.8 | £ 25,630 / £ 32,122 | 2.4 | -50.9 | 3.8 / 5.9 | £ 90,893 / £ 221,667 | 4.9 / 6.4 | 23.4 |
| Beaumaris | 39.8 | 8.1 | -8.0 | -10.8 | -5.0 | -1.6 | -2.8 | 13.1 | 88.7 | 57.1 | -1.6 | 55.4 | -0.4 | £ 28,438 | 3.8 | -8.9 | 7.5 | £ 193,409 | 7.8 | 22.6 |
| Bodffordd | 77.9 | -3.4 | -1.3 | -0.6 | -26.4 | 11.9 | 20.1 | 8.0 | 48.8 | 79.0 | -0.2 | 66.4 | 8.0 | £ 30,209 | 1.7 | -42.1 | 5.0 | £ 193,423 | 2.0 | 20.9 |
| Bodorgan | 72.7 | 0.5 | 5.1 | 0.6 | -18.6 | 20.4 | 16.5 | 8.3 | 20.8 | 73.5 | 1.0 | 61.4 | 3.4 | £ 30,335 | 4.3 | -40.4 | 7.4 | £ 269,821 | 2.6 | 20.6 |
| Braint / Gwyngyll | 75.5 | 0.7 | 7.7 | -7.5 | 5.7 | 15.3 | 40.8 | 8.1 | 7.9 | 78.0 | 1.2 | 67.0 | 2.0 | £ 41,129 / £ 35,081 | 0.3 | -63.6 | 4.7 / 4.9 | £ 182,094 / £ 170,500 | 5.1 / 4.7 | 16.7 |
| Bryngwran | 75.8 | -12.2 | -4.3 | -7.1 | -27.6 | 9.3 | 11.7 | 6.3 | -21.6 | 78.3 | -9.9 | 56.9 | -12.0 | £ 29,377 | 1.1 | -42.9 | 5.9 | £ 156,333 | 8.4 | 24.5 |
| Brynteg | 50.9 | 5.0 | 6.8 | -0.5 | 3.9 | 8.7 | 21.9 | 7.6 | 9.5 | 51.1 | 8.9 | 54.5 | 1.3 | £ 30,097 | 3.8 | -34.0 | 6.0 | £ 178,154 | 2.8 | 23.0 |
| Cadnant | 51.7 | -1.3 | -4.5 | -4.8 | -12.2 | 9.2 | -1.6 | 13.9 | 3.5 | 56.9 | -4.1 | 59.7 | 0.8 | £ 32,141 | 1.2 | -58.8 | 6.7 | £ 187,571 | 18.8 | 19.9 |
| Cefni | 83.0 | -1.1 | -0.6 | -4.9 | -7.4 | 13.4 | 6.3 | 9.3 | 25.5 | 83.6 | -0.1 | 65.3 | 3.7 | £ 36,114 | 0.8 | -37.5 | 6.2 | £ 184,944 | 11.9 | 21.2 |
| Cwm Cadnant | 56.2 | -3.4 | -2.4 | -1.6 | -30.8 | 4.5 | 14.3 | 8.6 | 55.7 | 62.9 | -5.7 | 63.6 | -8.3 | £ 43,273 | 2.9 | -51.7 | 9.2 | £ 350,800 | 3.6 | 16.1 |
| Cyngar | 84.8 | 13.5 | 25.5 | 19.3 | 21.9 | 52.4 | 22.0 | 8.8 | 10.0 | 84.4 | 14.0 | 62.2 | 13.7 | £ 29,084 | 0.5 | | 5.1 | £ 143,050 | 7.4 | 18.7 |
| Holyhead Town | 43.3 | -9.3 | 12.1 | 13.3 | 14.5 | 37.3 | 5.6 | 13.4 | 22.0 | 69.1 | -5.4 | 57.2 | -19.3 | £ 21,301 | 0.0 | | 4.0 | £ 85,413 | 47.5 | 24.4 |
| Kingsland | 48.1 | -12.8 | 6.5 | 8.9 | -10.3 | 29.9 | 0.6 | 13.1 | 56.2 | 74.1 | -4.0 | 59.2 | -5.1 | £ 27,124 | 0.0 | -100.0 | 3.9 | £ 93,217 | 17.4 | 22.8 |
| Llanbadrig | 54.5 | -5.0 | -2.2 | -5.1 | -7.9 | 3.4 | 11.3 | 8.4 | -19.3 | 54.6 | -4.4 | 55.7 | -3.8 | £ 27,505 | 6.9 | -12.7 | 6.5 | £ 135,250 | 10.8 | 25.0 |
| Llanbedrgoch | 45.5 | 8.4 | -12.6 | -20.6 | -17.5 | -11.4 | 1.2 | 10.3 | 74.5 | 43.9 | 9.1 | 49.7 | -4.5 | £ 33,820 | 5.1 | -45.9 | 6.2 | £ 230,676 | 6.3 | 28.5 |
| Llanddyfnan | 70.0 | -8.5 | -1.0 | -18.8 | -1.3 | 1.6 | 36.8 | 7.3 | 20.3 | 69.4 | -3.3 | 63.7 | -1.6 | £ 32,746 | 3.6 | -16.0 | 7.2 | £ 245,583 | 3.1 | 18.1 |
| Llaneilian | 61.4 | -6.2 | -1.2 | -10.1 | -11.9 | 5.8 | 20.6 | 8.5 | 8.5 | 59.1 | -3.0 | 57.4 | 2.6 | £ 29,015 | 3.0 | -42.0 | 6.5 | £ 205,900 | 2.7 | 23.5 |
| Llanfaethlu | 67.0 | -8.9 | 4.7 | 2.6 | -1.9 | 18.7 | 16.1 | 9.2 | 51.6 | 66.8 | -7.6 | 57.8 | -6.3 | £ 30,915 | 7.1 | -23.5 | 7.2 | £ 203,667 | 7.0 | 20.6 |
| Llanfair-yn-Neubwll | 51.5 | 12.2 | 15.9 | 5.1 | 16.2 | 50.6 | 26.7 | 19.5 | -15.0 | 57.9 | 15.4 | 66.2 | -10.8 | £ 33,647 | 2.6 | 40.9 | 4.0 | £ 146,423 | 6.5 | 16.8 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | 78.4 | 2.3 | 2.3 | -1.8 | -1.9 | 12.6 | 22.2 | 6.9 | -4.8 | 80.5 | 3.2 | 67.0 | 0.6 | £ 33,081 | 0.6 | -44.4 | 6.0 | £ 217,779 | 4.9 | 18.7 |
| Llangoed | 54.6 | -6.1 | -3.1 | -1.2 | -22.4 | 6.9 | 3.1 | 10.1 | 20.6 | 59.5 | -3.7 | 57.0 | -2.5 | £ 31,524 | 5.6 | -30.0 | 5.8 | £ 262,500 | 0.0 | 24.5 |
| Llanidan | 68.7 | 1.0 | 5.0 | -1.4 | 1.5 | 18.6 | 15.7 | 9.4 | 26.6 | 70.1 | 5.6 | 62.2 | -0.5 | £ 29,547 | 0.8 | -72.7 | 5.3 | £ 133,700 | 7.8 | 19.9 |
| Llannerch-y-medd | 72.3 | -5.8 | 4.7 | -7.2 | 1.9 | 21.0 | 25.0 | 10.0 | 34.6 | 72.4 | -4.7 | 60.3 | -0.8 | £ 26,226 | 1.9 | -44.4 | 5.6 | £ 151,167 | 6.1 | 21.2 |
| London Road | 51.7 | -21.1 | 6.7 | 10.7 | 7.7 | 14.7 | 9.1 | 12.4 | 45.7 | 77.7 | -10.9 | 57.1 | -13.6 | £ 22,491 | 0.0 | | 2.8 | £ 71,000 | 10.7 | 23.4 |
| Maeshyfryd | 43.7 | -6.4 | 1.4 | -2.8 | -1.6 | 19.3 | 7.8 | 12.6 | 78.3 | 73.8 | -5.4 | 148.3 | -6.7 | £ 22,311 | 0.0 | -100.0 | 4.1 | £ 94,219 | 9.0 | 26.2 |
| Mechell | 63.9 | -1.1 | 2.0 | 1.9 | -26.6 | 14.1 | 16.3 | 7.7 | 34.1 | 62.1 | 0.3 | 58.9 | 2.3 | £ 27,070 | 4.3 | 15.4 | 6.1 | £ 146,700 | 0.0 | 21.9 |
| Moelfre | 51.5 | -13.9 | -1.2 | -11.0 | -0.9 | -2.8 | 22.3 | 11.8 | 129.3 | 50.6 | -10.5 | 51.8 | -3.4 | £ 30,968 | 13.2 | -22.6 | 7.5 | £ 281,250 | 4.4 | 24.1 |
| Morawelon | 45.3 | -22.1 | -6.7 | -16.2 | -20.2 | 7.0 | 10.8 | 10.3 | 6.7 | 77.2 | -13.1 | 52.3 | -17.7 | £ 19,784 | 0.0 | | 5.0 | £ 115,250 | 11.0 | 25.5 |
| Parc a'r Mynydd | 53.8 | -15.8 | 0.8 | 0.0 | -15.6 | 14.4 | 15.4 | 7.2 | 93.0 | 77.3 | -5.7 | 59.7 | -10.3 | £ 26,021 | 0.0 | -100.0 | 4.8 | £ 143,083 | 0.0 | 21.7 |
| Pentraeth | 58.2 | 6.2 | 6.4 | -0.4 | -4.0 | 21.4 | 18.7 | 9.3 | 30.5 | 60.2 | 4.8 | 63.6 | 2.8 | £ 32,077 | 6.3 | -37.3 | 6.3 | £ 178,167 | 2.8 | 18.9 |
| Porthyfelin | 45.7 | -14.9 | -4.7 | -7.5 | -12.7 | 11.9 | -7.8 | 8.6 | 3.1 | 78.3 | 0.8 | 55.1 | -8.2 | £ 24,068 | 0.3 | -66.7 | 4.5 | £ 123,115 | 13.5 | 24.7 |
| Rhosyr | 63.7 | -0.2 | 4.0 | -0.4 | -16.8 | 17.2 | 23.5 | 10.6 | 19.9 | 64.9 | 1.7 | 56.3 | -1.3 | £ 27,987 | 2.9 | -43.1 | 5.8 | £ 132,419 | 6.0 | 26.3 |
| Trearddur | 42.6 | 0.1 | -1.8 | -13.3 | -13.9 | -2.7 | 30.5 | 10.0 | 34.3 | 52.9 | 2.1 | 58.5 | 5.7 | £ 39,463 | 13.6 | -37.5 | 6.5 | £ 223,407 | 6.9 | 23.5 |

| | Ardal | % Siaradwyr Cymraeg dros 3 oed (2001) | Siaradwyr Cymraeg % Newid 91-01 | Cyfanswm Poblogaeth % Newid 01-09 | Poblogaeth 0-19 oed % newid 01-09 | Poblogaeth 20-30 oed % newid 01-09 | Poblogaeth 35-64 oed % newid 01-09 | Poblogaeth 65+ oed % newid 01-09 | % Mudwyr (2001) | Mudwyr % Newid 91-01 | Geni yng Nghymru % | Geni yng Nghymru % Newid 91-01 | Yn Actif Economaidd (16-74 oed) % | Yn Actif Economaidd % Newid 91-01 | Incwm Aelwydydd Cymedr (Cyfartaledd) (2010) | % ail dai/tai haf (2001) | 2ail / Tai Haf % Newid 91-01 | Fforddiadwyedd Tai (cymhareb) (Mai 10-Ebrill 11) | Prisau Cyfartalog Tai (Tach 10-Ebrill 11) | Cyfradd - holl drosedd ac YGG bob 1,000 o bobl | % gyda Salwch Cyfyngiedig Hir-dymor (2001) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **POBLOGAETH A DEMOGRAFFI** | | | | | | | | | | | **ECONOMI** | | | **TAI** | | | | **IECHYD A LLES** | |
| | Tudur | 83.2 | -13.2 | -5.0 | 0.7 | -11.8 | 12.3 | -5.6 | 12.0 | 5.3 | 86.5 | -10.7 | 60.2 | -12.6 | £ 21,105 | 0.0 | | 5.5 | £ 137,000 | 5.4 | 21.4 |
| | Tysilio | 64.4 | 1.2 | -1.0 | -10.9 | 11.8 | 18.1 | -5.4 | 8.2 | -15.3 | 73.1 | -2.1 | 65.1 | 0.7 | £ 28,763 | 0.0 | | 5.2 | £ 151,511 | 6.2 | 16.9 |
| | Valley | 55.0 | -1.9 | -0.2 | -9.9 | -14.7 | 13.6 | 22.3 | 11.4 | 38.2 | 63.5 | -0.8 | 62.7 | 8.2 | £ 33,582 | 1.1 | -45.0 | 4.6 | £ 147,019 | 6.6 | 20.2 |
| Gwynedd | | 69.0 | -0.7 | 1.6 | -2.0 | 0.6 | 1.5 | 7.6 | 12.0 | 47.5 | 69.8 | 0.2 | 60.5 | 1.7 | £ 28,133 | 7.8 | -21.9 | 5.9 | £ 170,157 | 7.7 | 20.1 |
| | Aberdaron | 75.2 | 6.9 | 4.0 | 0.8 | 2.8 | 2.3 | 13.0 | 9.1 | 106.7 | 71.6 | 8.0 | 59.4 | 18.6 | £ 24,103 | 19.6 | -24.3 | 9.2 | £ 218,750 | 0.0 | 20.2 |
| | Aberdyfi<br>Bryn-crug / Llanfihangel<br>Corris / Mawddwy | 53.6 | -1.9 | 2.0 | 0.1 | 1.7 | 3.5 | 0.9 | 11.0 | 21.6 | 53.2 | -2.5 | 61.1 | -2.9 | £ 32,677<br>£ 25,589<br>£ 26,596 | 30.5 | 4.1 | 8.4<br>6.7<br>6.8 | £ 279,375<br>£ 218,300<br>£ 200,364 | 2.7<br>2.0<br>3.0 | 21.2 |
| | Abererch | 77.0 | -1.1 | -5.3 | -3.7 | -20.1 | -6.9 | 9.5 | 8.8 | 1.6 | 74.4 | -1.5 | 64.9 | 5.5 | £ 25,830 | 1.6 | -60.0 | 7.8 | £ 212,875 | 1.4 | 18.8 |
| | Abermaw | 43.8 | 2.9 | 0.8 | -12.2 | 15.1 | -3.2 | 13.0 | 15.3 | 28.3 | 46.6 | -3.7 | 60.3 | 2.9 | £ 26,026 | 9.2 | -30.8 | 5.5 | £ 146,575 | 6.6 | 23.3 |
| | Abersoch | 50.5 | 6.8 | -19.5 | -5.2 | -30.2 | -27.2 | -9.9 | 9.3 | 10.5 | 47.2 | 17.7 | 60.2 | 25.6 | £ 34,316 | 44.9 | -3.4 | 12.1 | £ 381,111 | 11.1 | 19.8 |
| | Arllechwedd<br>Tregarth & Mynydd Llandygai | 66.5 | 1.9 | -1.0 | -5.6 | -9.5 | 3.2 | 5.7 | 8.1 | 16.3 | 69.0 | 3.1 | 65.3 | 6.0 | £ 34,857<br>£ 35,476 | 1.8 | -49.1 | 6.4<br>5.6 | £ 184,875<br>£ 195,407 | 12.4<br>2.2 | 17.1 |
| | Bala | 80.3 | 0.6 | 0.9 | 0.0 | -2.2 | 7.0 | -4.8 | 10.1 | 37.9 | 79.4 | 4.0 | 66.2 | 10.0 | £ 26,304 | 1.3 | -61.3 | 4.9 | £ 126,000 | 3.0 | 17.7 |
| | Bethel<br>Deiniolen<br>Penisarwaun | 78.3 | 1.6 | 4.4 | 4.5 | -13.5 | 8.6 | 19.3 | 8.6 | 16.4 | 77.2 | 4.5 | 69.4 | 7.7 | £ 31,565<br>£ 28,347<br>£ 33,824 | 2.3 | -48.9 | 5.3<br>4.6<br>4.0 | £ 196,867<br>£ 147,115<br>£ 136,475 | 3.4<br>2.7<br>2.7 | 16.7 |
| | Bontnewydd | 85.4 | -0.9 | -6.4 | -18.6 | -24.9 | -6.1 | 25.7 | 7.0 | -17.2 | 84.4 | 1.5 | 66.2 | 6.4 | £ 32,796 | 1.5 | 16.7 | 5.6 | £ 215,000 | 0.9 | 17.5 |
| | Botwnnog | 76.9 | -1.1 | -2.8 | 0.4 | -20.8 | -2.0 | 7.0 | 6.1 | 7.4 | 70.6 | -4.5 | 58.5 | 5.7 | £ 24,847 | 4.8 | -53.3 | 7.7 | £ 212,857 | 0.0 | 19.1 |
| | Bowydd and Rhiw | 80.0 | -15.2 | -0.5 | -6.7 | 2.2 | 2.2 | 0.9 | 11.6 | 45.6 | 77.5 | -13.2 | 59.3 | -19.8 | £ 23,005 | 3.2 | -56.9 | 3.1 | £ 79,321 | 3.8 | 22.7 |
| | Brithdir and Llanfachreth/Ganllwyd/Lla | 66.3 | -5.4 | 3.1 | -6.5 | -8.8 | 0.3 | 26.5 | 6.8 | -3.0 | 67.0 | -4.0 | 62.0 | -1.6 | £ 28,122 | 17.1 | 14.2 | 6.3 | £ 231,667 | 4.2 | 19.2 |
| | Cadnant | 85.7 | 8.6 | -3.1 | -0.7 | -11.6 | 3.5 | -8.6 | 12.6 | 131.6 | 84.9 | 10.5 | 58.4 | 13.5 | £ 24,465 | 0.3 | 200.0 | 4.2 | £ 115,154 | 9.3 | 24.6 |
| | Clynnog | 67.9 | -11.6 | 0.5 | 2.7 | 0.7 | -1.7 | 2.3 | 10.2 | 137.8 | 65.3 | -4.6 | 57.0 | -2.9 | £ 29,168 | 11.9 | -30.5 | 6.0 | £ 198,222 | 6.1 | 23.7 |
| | Criccieth | 65.5 | 2.2 | -1.1 | -8.9 | 10.2 | -6.8 | 8.0 | 11.6 | 54.7 | 63.0 | 2.3 | 60.4 | 13.3 | £ 31,384 | 7.3 | -10.7 | 7.7 | £ 184,000 | 3.3 | 20.8 |
| | Cwm-y-Glo<br>Llanrug | 82.1 | 4.8 | 3.5 | -0.3 | -9.3 | 9.6 | 13.3 | 8.2 | 62.6 | 80.1 | 9.0 | 65.9 | 8.3 | £ 37,621<br>£ 34,630 | 1.8 | -63.8 | 4.5<br>4.6 | £ 146,536<br>£ 147,310 | 4.1<br>4.9 | 18.3 |
| | Deiniol | 30.6 | -2.4 | 28.8 | -6.9 | 52.2 | 17.7 | 4.5 | 47.0 | 204.3 | 42.0 | 5.9 | 47.3 | 30.8 | £ 21,854 | 0.5 | -25.0 | 5.2 | £ 126,125 | 65.5 | 17.2 |
| | Dewi | 59.1 | -7.0 | 25.4 | 15.2 | 41.3 | 28.4 | 16.1 | 12.0 | 46.0 | 79.2 | -2.4 | 65.4 | -3.4 | £ 24,848 | 0.5 | | 6.9 | £ 236,150 | 18.9 | 19.1 |
| | Diffwys & Maenofferen<br>Teigl | 81.6 | -9.1 | 0.7 | -0.4 | -3.2 | 1.9 | 3.0 | 8.7 | 18.2 | 76.9 | -10.3 | 61.2 | -10.0 | £ 24,772<br>£ 25,790 | 5.5 | -29.1 | 2.6<br>4.1 | £ 88,222<br>£ 109,650 | 8.0<br>7.4 | 19.6 |
| | Dolbenmaen<br>Dwyrain Porthmadog East<br>Porthmadog-Tremadog | 75.6 | -3.3 | -2.0 | -10.5 | -0.9 | -1.6 | 6.5 | 11.7 | 58.8 | 74.0 | 1.8 | 62.5 | -3.5 | £ 27,703<br>£ 24,471<br>£ 23,876 | 4.6 | -49.7 | 5.4<br>4.8<br>5.9 | £ 128,571<br>£ 126,344<br>£ 163,875 | 3.3<br>9.4<br>3.1 | 18.8 |
| | Gogledd Dolgellau North<br>De Dolgellau South | 70.5 | -1.0 | 2.4 | -7.9 | 16.7 | 1.7 | 4.5 | 9.6 | 8.5 | 71.9 | 0.8 | 63.5 | -1.0 | £ 35,192<br>£ 27,792 | 5.8 | -4.8 | 6.0<br>4.9 | £ 189,000<br>£ 133,667 | 9.2<br>1.3 | 20.4 |
| | Dyffryn Ardudwy | 48.7 | 8.5 | 1.3 | -11.6 | 0.0 | -0.7 | 14.6 | 9.3 | 21.1 | 46.6 | 12.0 | 55.9 | 9.6 | £ 25,078 | 6.3 | -60.7 | 7.9 | £ 219,690 | 3.6 | 25.0 |
| | Efail-newydd/Buan | 76.9 | 48.2 | -0.2 | -3.6 | -17.7 | 0.0 | 18.1 | 5.4 | -30.3 | 74.9 | 0.9 | 63.3 | 5.3 | £ 25,469 | 5.5 | -44.1 | 8.2 | £ 250,750 | 3.9 | 19.5 |
| | Garth | 46.4 | 33.7 | -17.2 | -18.1 | -24.8 | -11.1 | -3.2 | 36.6 | 362.5 | 53.8 | 36.3 | 49.8 | 40.7 | £ 29,493 | 0.0 | -100.0 | 6.8 | £ 188,071 | 15.8 | 15.9 |
| | Gerlan | 74.8 | -0.3 | -2.4 | -3.5 | -5.1 | 0.3 | -3.9 | 10.6 | 41.7 | 75.0 | 1.8 | 66.9 | 10.2 | £ 25,819 | 2.8 | -34.9 | 4.6 | £ 126,018 | 5.3 | 17.3 |
| | Glyder | 55.3 | 9.3 | -4.8 | -4.4 | 5.6 | -4.4 | -15.7 | 16.2 | 229.5 | 70.8 | 4.4 | 57.4 | 5.3 | £ 35,294 | 0.0 | -100.0 | 6.0 | £ 193,167 | 10.6 | 19.2 |
| | Groeslon<br>Llanllyfni<br>Talysarn | 75.8 | -4.6 | 2.0 | 1.4 | -7.0 | 1.8 | 11.8 | 7.7 | 6.3 | 72.1 | -1.4 | 59.4 | -3.7 | £ 34,981<br>£ 25,468<br>£ 21,933 | 4.2 | -41.3 | 5.3<br>5.4<br>5.4 | £ 170,912<br>£ 173,920<br>£ 126,118 | 0.0<br>7.1<br>13.3 | 22.2 |

| Ardal | POBLOGAETH A DEMOGRAFFI | | | | | | | | | | | ECONOMI | | | TAI | | | | IECHYD A LLES | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | % Siaradwyr Cymraeg dros 3 oed (2001) | Siaradwyr Cymraeg % Newid 91-01 | Cyfanswm Poblogaeth % Newid 01-09 | Poblogaeth 0-19 oed % newid 01-09 | Poblogaeth 20-30 oed % newid 01-09 | Poblogaeth 35-64 oed % newid 01-09 | Poblogaeth 65+ oed % newid 01-09 | % Mudwyr (2001) | Mudwyr % Newid 91-01 | Geni yng Nghymru % | Geni yng Nghymru % Newid 91-01 | Yn Actif Economaidd (16-74 oed) % | Yn Actif Economaidd % Newid 91-01 | Incwm Aelwydydd Cymedr (Cyfartaledd) (2010) | % ail dai/tai haf (2001) | 2ail / Tai Haf % Newid 91-01 | Fforddiadwyedd Tai (cymhareb) (Mai 10-Ebrill 11) | Prisau Cyfartalog Tai (Tach 10-Ebrill 11) | Cyfradd - holl drosedd ac YGG bob 1,000 o bobl | % gyda Salwch Cyfyngiedig Hir-dymor (2001) |
| Harlech | 58.9 | -6.4 | 4.8 | 1.3 | 6.0 | 3.5 | 9.9 | 13.9 | 30.1 | 58.6 | -1.8 | 57.1 | -2.7 | £ 30,434 | 15.8 | -20.1 | 6.1 | £ 187,495 | 4.1 | 19.6 |
| Hendre | 52.2 | 7.6 | 1.5 | -6.7 | 18.5 | -0.9 | -15.2 | 20.6 | 76.5 | 71.5 | 6.7 | 52.2 | 5.1 | £ 23,961 | 0.0 | -100.0 | 4.8 | £ 124,167 | 3.5 | 19.6 |
| Hirael | 52.9 | -10.2 | 5.6 | -10.0 | 25.8 | 5.2 | -9.8 | 22.0 | 124.1 | 68.4 | -6.1 | 51.5 | 3.1 | £ 20,798 | 0.6 | 33.3 | 5.5 | £ 145,143 | 23.7 | 23.4 |
| Llanaelhaearn | 78.0 | -4.1 | 2.8 | 1.0 | -10.4 | 6.4 | 8.2 | 8.7 | -3.5 | 73.7 | -2.6 | 55.0 | -5.7 | £ 24,589 | 9.9 | -28.2 | 5.8 | £ 171,286 | 3.2 | 22.8 |
| Llanbedr | 50.3 | -16.8 | 1.7 | -6.4 | -6.7 | -9.7 | 28.9 | 9.8 | -12.5 | 48.5 | -14.1 | 57.8 | -10.6 | £ 25,675 | 17.5 | 1.9 | 7.9 | £ 265,500 | 2.0 | 24.4 |
| Llanbedrog | 52.9 | -8.2 | -5.8 | -11.1 | -10.0 | -13.3 | 5.5 | 9.6 | 19.5 | 48.7 | -10.0 | 48.7 | -10.3 | £ 25,622 | 26.1 | 9.0 | 8.4 | £ 229,643 | 4.0 | 25.3 |
| Llanberis | 80.5 | 1.0 | 0.8 | -5.5 | -14.3 | 5.5 | 16.2 | 10.1 | 15.9 | 76.5 | 0.7 | 64.6 | -3.2 | £ 25,778 | 3.5 | -47.6 | 4.9 | £ 129,847 | 5.4 | 19.6 |
| Llandderfel | 72.6 | -9.3 | 0.8 | -2.8 | 2.6 | -4.0 | 19.0 | 9.1 | 25.0 | 70.5 | -7.9 | 67.2 | 4.2 | £ 27,590 | 8.5 | -25.6 | 6.4 | £ 161,944 | 4.2 | 16.0 |
| Llanengan | 65.7 | -7.6 | -2.6 | -11.3 | -2.0 | 0.9 | -1.5 | 9.3 | 73.3 | 63.5 | -5.2 | 57.4 | -4.4 | £ 30,101 | 28.3 | -12.0 | 9.8 | £ 330,250 | 0.0 | 20.0 |
| Llangelynin | 40.9 | -5.6 | -1.6 | -10.4 | 0.5 | -4.4 | 9.1 | 10.8 | 21.7 | 39.7 | -4.7 | 56.4 | 3.0 | £ 25,929 | 16.3 | -24.0 | 6.6 | £ 195,438 | 3.5 | 24.6 |
| Llanuwchllyn | 80.4 | -12.8 | 2.8 | 1.5 | 1.5 | 1.6 | 8.5 | 6.4 | 12.8 | 76.6 | -14.0 | 67.9 | -1.4 | £ 35,294 | 10.1 | -30.0 | 5.4 | £ 150,000 | 4.5 | 15.0 |
| Llanwnda | 82.5 | 3.6 | 3.9 | 1.0 | 1.3 | 7.7 | 2.6 | 6.5 | 24.2 | 79.5 | 5.8 | 65.6 | 9.8 | £ 31,780 | 1.5 | -66.7 | 5.6 | £ 165,094 | 5.3 | 18.6 |
| Llanystumdwy | 77.5 | -4.6 | 8.6 | 15.2 | 7.3 | 6.7 | 5.2 | 8.1 | -37.2 | 75.1 | -2.4 | 62.3 | -20.6 | £ 28,082 | 4.8 | -21.8 | 5.9 | £ 174,033 | 5.6 | 18.7 |
| Marchog | 54.5 | 1.2 | -2.2 | -14.2 | 2.6 | 5.2 | 5.1 | 12.2 | 38.4 | 81.0 | 0.9 | 54.2 | -9.6 | £ 21,824 | 0.0 | -100.0 | 4.9 | £ 110,969 | 11.9 | 22.1 |
| Menai (Bangor) | 27.4 | 29.2 | 8.4 | 35.5 | 3.8 | -8.9 | -17.4 | 57.6 | 293.3 | 31.1 | 30.2 | 37.3 | 75.4 | £ 29,009 | 0.6 | 33.3 | 5.2 | £ 171,400 | 11.3 | 14.0 |
| Menai (Caernarfon) | 83.9 | -6.9 | 2.1 | -12.9 | 24.5 | -4.8 | 12.1 | 8.8 | -21.8 | 84.6 | -5.0 | 60.9 | -10.7 | £ 35,227 | 0.8 | -20.0 | 6.1 | £ 196,955 | 11.2 | 20.2 |
| Morfa Nefyn | 78.1 | 4.3 | 1.1 | 0.2 | -2.5 | 2.8 | 1.8 | 7.9 | 14.9 | 73.5 | 4.4 | 57.5 | 8.0 | £ 33,487 | 15.8 | -18.6 | 6.5 | £ 206,073 | 6.3 | 19.6 |
| Nefyn | | | | | | | | | | | | | | £ 30,400 | | | 4.9 | £ 157,305 | 7.3 | |
| Ogwen | 79.4 | 3.3 | 7.5 | -0.3 | 11.9 | 10.0 | 9.2 | 10.4 | 20.4 | 80.2 | 4.5 | 63.0 | 2.4 | £ 25,602 | 0.5 | -61.5 | 4.4 | £ 120,682 | 10.6 | 21.1 |
| Peblig (Caernarfon) | 88.4 | -7.4 | 2.5 | -1.0 | 4.4 | 5.9 | -0.7 | 8.6 | 33.8 | 88.7 | -8.9 | 54.1 | -5.9 | £ 22,584 | 0.3 | 200.0 | 4.8 | £ 120,200 | 14.8 | 23.2 |
| Penrhyndeudraeth | 76.8 | 1.6 | -2.1 | -7.7 | -1.1 | 1.1 | -1.7 | 9.8 | 43.2 | 74.1 | 1.6 | 63.9 | 1.6 | £ 28,783 | 4.3 | -21.5 | 4.4 | £ 129,421 | 4.9 | 18.5 |
| Pentir | 62.3 | 3.1 | 1.4 | -2.5 | -26.2 | 7.6 | 29.0 | 14.9 | 55.9 | 68.7 | 0.9 | 66.9 | 5.9 | £ 35,348 | 0.6 | -57.1 | 6.1 | £ 219,521 | 10.0 | 15.8 |
| Penygroes | 88.2 | -5.4 | 7.3 | 9.9 | -0.6 | 5.0 | 16.8 | 10.4 | 84.0 | 85.8 | -1.7 | 60.9 | -3.2 | £ 25,928 | 1.1 | -52.6 | 5.8 | £ 166,568 | 7.3 | 24.8 |
| Porthmadog West | 64.8 | 11.4 | -0.4 | -6.5 | 10.4 | -12.2 | 17.4 | 11.0 | 81.7 | 60.8 | 10.1 | 59.3 | 10.6 | £ 31,578 | 22.5 | -30.7 | 6.2 | £ 154,864 | 7.8 | 20.9 |
| Pwllheli North | 81.6 | -5.8 | 8.1 | 10.1 | 11.5 | 8.3 | 3.1 | 11.6 | 15.6 | 79.9 | -5.5 | 62.2 | -2.1 | £ 25,558 | 2.2 | -46.5 | 5.4 | £ 145,263 | 18.3 | 21.3 |
| Pwllheli South | 79.0 | -4.7 | -2.9 | -6.2 | -3.5 | -5.9 | 6.6 | 11.0 | 2.4 | 77.5 | -5.2 | 56.5 | -14.5 | £ 23,461 | 4.2 | -45.1 | 7.8 | £ 195,682 | 9.2 | 21.5 |
| Seiont | 87.7 | -1.1 | 0.4 | -3.9 | 4.6 | -0.3 | 4.5 | 9.7 | 35.2 | 86.0 | -1.1 | 65.6 | 0.6 | £ 27,478 | 0.2 | -40.0 | 4.6 | £ 140,023 | 21.6 | 19.7 |
| Trawsfynydd | 76.9 | -3.1 | 1.6 | -1.6 | -12.1 | -0.2 | 21.3 | 8.1 | 8.8 | 74.3 | -2.8 | 63.9 | -8.9 | £ 24,666 | 10.6 | -5.7 | 4.6 | £ 99,071 | 5.2 | 20.2 |
| Tudweiliog | 73.6 | -20.5 | 1.4 | 1.7 | 17.2 | -7.9 | 11.3 | 6.8 | -5.2 | 71.9 | -17.2 | 58.4 | -6.9 | £ 33,494 | 7.8 | -54.7 | 6.8 | £ 249,071 | 2.6 | 20.3 |
| Tywyn | 40.8 | 10.1 | 2.6 | -7.9 | 1.4 | 1.9 | 11.7 | 12.8 | 49.8 | 45.8 | 2.3 | 58.8 | 1.3 | £ 23,712 | 8.5 | -21.7 | 6.0 | £ 159,981 | 6.2 | 24.5 |
| Waunfawr | 73.4 | 0.5 | 0.7 | 1.3 | -14.4 | -0.3 | 17.4 | 7.6 | 36.0 | 69.6 | 5.2 | 62.8 | 3.4 | £ 30,840 | 5.9 | -30.6 | 6.3 | £ 227,203 | 10.7 | 18.9 |
| Y Felinheli | 72.1 | 14.9 | 4.8 | 12.8 | -11.6 | 2.5 | 21.4 | 13.5 | 46.6 | 72.8 | 14.5 | 69.8 | 16.9 | £ 34,157 | 12.0 | 1.6 | 5.0 | £ 185,929 | 2.4 | 18.3 |

**ATODIAD 2A - MATRICS ASESU WARDIAU (YN CYNNWYS CANLYNIADAU CYFRIFIAD 2011)**

| | |
|---|---|
| 15 ward isaf | |
| 15 ward uchaf | |

| | POBLOGAETH A DEMOGRAFFI | | | | | | | | | | | ECONOMI | | | TAI | | | | IECHYD A LLES | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ardal | % Siaradwyr Cymraeg (2011) | Siaradwyr Cymraeg % Newid (Nifer) 01-11 | Cyfanswm Poblogaeth % Newid 01-11 | Poblogaeth 0-19 oed % Newid (nifer) 01-11 | Poblogaeth 20-29 oed % Newid (nifer) 01-11 | Poblogaeth 30-64 oed % Newid (nifer) 01-11 | Poblogaeth 65+ oed % Newid (nifer) 01-11 | % Mudwyr (2011) | Mudwyr % Newid 021-11 | % Geni yng Nghymru (2011) | Geni yng Nghymru: % Newid: 01-11 | Yn Actif yn Economaidd % | Yn Actifedd Economaidd % Newid 01-11 | Canolrif Incwm Aelwydydd (2011) | % 2IL / Tai Haf (2011) | 2ail dai / tai haf % newid 01-11 | Fforddiadwyedd Tai (cymhareb) (2011) | Canolrif prisiau tai (2011) | Cyfradd - pob trosedd ac ASB bob 1,000 o bobl (2012) | % gyda salwch cyfyngiedig tymor hir (2011) |
| **Cymru** | **19.0** | **-3.4** | **5.5** | **- 2.1** | **18.4** | **4.2** | **11.4** | Dim ar gael | Dim ar gael | **72.7** | **-3.6** | **65.8** | **16.7** | | Dim ar gael | Dim ar gael | | | **6.9** | **22.7** |
| **Ynys Mon** | **57.2** | **-0.8** | **4.4** | **- 7.3** | **9.1** | **1.4** | **24.1** | | | **66.4** | **-1.8** | **65.0** | **15.7** | **£24,730** | | | **5.66** | **£140,000** | **4.7** | **23.1** |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 0.0 |
| wardcas:00NAMA : Aberffraw | 60.4 | -7.7 | 6.1 | - 15.0 | 8.9 | 1.4 | 41.5 | | | 64.5 | -9.7 | 61.3 | 18.2 | £20,340 | | | 4.36 | £88,725 | 1.5 | 25.6 |
| wardcas:00NAMB : Amlwch Port | 64.5 | 72.1 | 81.4 | 65.2 | 107.3 | 78.0 | 98.4 | | | 69.0 | -0.7 | 63.2 | 106.1 | £21,957 | | | 4.10 | £90,000 | 11.6 | 26.3 |
| wardcas:00NAMC : Amlwch Rural | 54.3 | -1.6 | 3.7 | - 2.8 | - 1.9 | - 10.0 | 47.5 | | | 57.1 | -1.7 | 54.5 | 7.8 | £26,377 | | | 5.74 | £151,500 | 9.4 | 26.1 |
| wardcas:00NAMD : Beaumaris | 39.5 | -5.4 | -4.9 | - 20.0 | 18.9 | - 7.6 | 3.4 | | | 57.0 | -0.3 | 63.2 | 9.9 | £23,812 | | | 8.19 | £195,000 | 4.1 | 22.9 |
| wardcas:00NAME : Bodffordd | 73.3 | -5.5 | 0.1 | - 15.4 | - 25.6 | 1.3 | 40.0 | | | 75.6 | -4.3 | 68.8 | 5.1 | £26,595 | | | 4.19 | £111,500 | 2.6 | 23.0 |
| wardcas:00NAMF : Bodorgan | 68.3 | 3.5 | 10.6 | - 2.6 | 2.1 | 8.2 | 37.5 | | | 68.7 | -6.6 | 65.8 | 18.9 | £24,812 | | | 6.65 | £165,000 | 2.3 | 23.2 |
| wardcas:00NAMG : Braint | 73.2 | -3.1 | 2.2 | - 12.9 | - 14.9 | - 1.5 | 50.2 | | | 78.8 | -0.7 | 69.9 | 2.1 | £34,802 | | | 4.68 | £162,750 | 0.7 | 21.2 |
| wardcas:00NAMH : Bryngwran | 71.2 | 6.2 | 13.5 | 9.5 | 14.9 | 12.1 | 21.7 | | | 74.0 | -5.7 | 65.4 | 29.1 | £24,844 | | | 4.79 | £119,000 | 2.6 | 23.4 |
| wardcas:00NAMJ : Brynteg | 48.7 | -1.5 | 2.6 | - 13.6 | - 6.2 | - 3.1 | 27.4 | | | 49.0 | -4.2 | 58.6 | 7.8 | £24,663 | | | 6.95 | £171,500 | 2.1 | 26.7 |
| wardcas:00NAMK : Cadnant | 47.4 | 6.1 | 14.8 | 7.6 | 31.0 | 12.0 | 14.5 | | | 52.4 | -7.8 | 64.3 | 30.6 | £27,463 | | | 6.83 | £187,500 | 4.1 | 16.7 |
| wardcas:00NAML : Cefni | 80.5 | 0.8 | 4.7 | 2.1 | - 7.1 | 1.4 | 18.7 | | | 80.7 | -4.1 | 68.1 | 5.8 | £30,253 | | | 6.04 | £182,625 | 10.8 | 23.9 |
| wardcas:00NAMM : Cwm Cadnant | 57.5 | 2.9 | 1.3 | - 7.9 | 9.3 | - 3.2 | 19.5 | | | 64.0 | 1.8 | 68.7 | 11.8 | £37,968 | | | 4.69 | £178,000 | 0.9 | 17.1 |
| wardcas:00NAMN : Cyngar | 80.8 | 10.6 | 17.9 | 5.6 | 38.8 | 23.4 | 9.6 | | | 82.9 | -2.0 | 72.0 | 40.6 | £24,136 | | | 5.26 | £127,000 | 9.8 | 19.0 |
| wardcas:00NAMP : Gwyngyll | 70.5 | -2.2 | 2.4 | - 16.2 | 11.9 | - 5.3 | 37.5 | | | 73.9 | -4.0 | 70.5 | 9.8 | £29,572 | | | 5.42 | £160,250 | 3.8 | 22.1 |
| wardcas:00NAMQ : Holyhead Town | 39.1 | -0.9 | 12.1 | 8.6 | 23.2 | 17.1 | -6.7 | | | 72.5 | 4.7 | 69.1 | 45.3 | £17,702 | | | 4.52 | £80,000 | 24.1 | 21.5 |
| wardcas:00NAMR : Kingsland | 42.9 | -5.3 | 5.8 | - 3.6 | - 4.9 | 10.4 | 21.4 | | | 73.1 | -1.4 | 65.9 | 23.7 | £22,947 | | | 4.57 | £104,950 | 4.6 | 21.9 |
| wardcas:00NAMS : Llanbadrig | 52.4 | -6.4 | -2.7 | - 5.1 | - | - 8.4 | 10.0 | | | 54.8 | 0.5 | 61.5 | 9.4 | £22,748 | | | 7.03 | £159,950 | 3.7 | 25.1 |
| wardcas:00NAMT : Llanbedrgoch | 43.9 | -7.9 | -4.8 | - 11.4 | - 1.8 | - 14.4 | 12.1 | | | 44.5 | 1.7 | 57.2 | 5.9 | £28,037 | | | 6.96 | £195,000 | 2.6 | 30.4 |
| wardcas:00NAMU : Llanddyfnan | 64.7 | -5.9 | 1.4 | - 20.8 | 30.4 | - 8.8 | 50.4 | | | 63.5 | -8.7 | 66.6 | 5.8 | £28,686 | | | 6.62 | £190,000 | 2.3 | 22.6 |
| wardcas:00NAMW : Llaneilian | 58.9 | -3.1 | 1.0 | - 13.5 | 4.3 | - 4.6 | 30.5 | | | 58.4 | -1.5 | 59.9 | 7.9 | £24,308 | | | 5.14 | £125,000 | 3.1 | 27.7 |
| wardcas:00NAMX : Llanfaethlu | 64.4 | 0.4 | 5.3 | - 7.1 | - 16.6 | 4.0 | 39.2 | | | 65.5 | -2.0 | 60.7 | 9.8 | £27,197 | | | 7.35 | £200,000 | 4.2 | 25.7 |
| wardcas:00NAMY : Llanfair-yn-Neubwll | 50.5 | 4.1 | 5.8 | - 8.1 | 19.1 | 9.5 | 12.3 | | | 59.4 | 2.7 | 70.9 | 20.9 | £27,609 | | | 3.96 | £109,200 | 4.4 | 18.0 |
| wardcas:00NAMZ : Llanfihangel Ysgeifiog | 75.8 | -3.2 | -0.4 | - 12.4 | 2.6 | - 4.5 | 31.6 | | | 77.7 | -3.4 | 73.2 | 9.1 | £29,444 | | | 4.47 | £131,500 | 2.5 | 20.1 |
| wardcas:00NANA : Llangoed | 48.4 | -13.5 | -3.8 | - 25.9 | 23.8 | - 12.9 | 24.7 | | | 57.0 | -4.2 | 59.2 | 5.3 | £25,439 | | | 5.50 | £140,000 | 2.4 | 27.1 |
| wardcas:00NANB : Llanidan | 65.1 | 4.6 | 10.0 | - 3.6 | 35.2 | 7.4 | 22.1 | | | 70.4 | 0.7 | 70.1 | 29.2 | £24,926 | | | 5.10 | £127,160 | 1.6 | 19.9 |
| wardcas:00NANC : Llannerch-y-medd | 69.9 | 3.4 | 8.4 | - 10.0 | 30.0 | 8.5 | 26.6 | | | 70.6 | -2.5 | 66.6 | 26.9 | £21,963 | | | 5.01 | £110,000 | 4.1 | 20.2 |
| wardcas:00NAND : London Road | 45.3 | -13.1 | -0.1 | - 4.6 | - 14.4 | 2.0 | 13.5 | | | 76.5 | -1.7 | 61.3 | 5.4 | £19,443 | | | 3.75 | £73,000 | 14.1 | 25.4 |
| wardcas:00NANE : Maeshyfryd | 40.6 | -5.0 | 3.0 | - 2.9 | 13.1 | 1.7 | 8.7 | | | 74.5 | 1.0 | 64.9 | 23.1 | £19,144 | | | 4.31 | £82,500 | 3.1 | 24.1 |
| wardcas:00NANF : Mechell | 61.1 | -3.3 | 1.0 | - 15.8 | 0.7 | 0.9 | 25.7 | | | 59.9 | -3.6 | 62.7 | 10.6 | £23,291 | | | 5.29 | £123,125 | 1.3 | 23.9 |
| wardcas:00NANG : Moelfre | 52.3 | -3.5 | -5.7 | - 17.2 | 29.2 | - 17.2 | 18.4 | | | 51.1 | 0.8 | 56.7 | 4.3 | £24,959 | | | 7.61 | £189,950 | 1.9 | 25.1 |
| wardcas:00NANH : Morawelon | 40.4 | -13.6 | -3.5 | - 15.5 | 1.8 | - 0.4 | 6.9 | | | 75.2 | -2.2 | 59.9 | 14.5 | £16,557 | | | 4.61 | £76,316 | 12.6 | 26.3 |
| wardcas:00NANJ : Parc a'r Mynydd | 50.4 | -5.5 | 0.8 | - 2.0 | - 32.0 | 0.4 | 26.2 | | | 75.4 | -2.5 | 65.4 | 8.6 | £23,177 | | | 5.39 | £124,950 | 1.7 | 22.3 |
| wardcas:00NANK : Pentraeth | 54.8 | -1.9 | 4.8 | - 13.3 | 16.7 | 5.8 | 21.2 | | | 59.1 | -1.9 | 67.4 | 16.5 | £28,619 | | | 5.59 | £160,000 | 0.5 | 22.0 |
| wardcas:00NANL : Porthyfelin | 39.7 | -15.4 | -1.5 | - 9.9 | 11.7 | - 2.5 | 4.8 | | | 75.6 | -3.6 | 64.6 | 18.2 | £20,147 | | | 4.97 | £100,060 | 10.2 | 24.2 |
| wardcas:00NANM : Rhosneigr | 36.0 | -13.8 | 1.1 | - 16.5 | 13.5 | 1.4 | 10.2 | | | 47.0 | -2.7 | 68.4 | 27.2 | £25,322 | | | 8.79 | £222,500 | 4.0 | 22.5 |
| wardcas:00NANN : Rhosyr | 59.3 | -5.0 | 2.6 | - 10.1 | 5.1 | - 1.8 | 28.9 | | | 63.5 | -2.1 | 61.7 | 14.5 | £22,707 | | | 5.06 | £115,000 | 2.2 | 25.4 |
| wardcas:00NANP : Trearddur | 38.1 | -14.7 | -4.9 | - 18.7 | - 5.7 | - 17.7 | 35.3 | | | 52.4 | -0.9 | 58.8 | -6.5 | £33,569 | | | 5.55 | £186,250 | 2.2 | 28.0 |
| wardcas:00NANQ : Tudur | 80.7 | 1.4 | 5.7 | 10.1 | - 3.5 | 5.9 | 5.5 | | | 85.1 | -1.3 | 66.9 | 17.6 | £17,680 | | | 4.99 | £88,300 | 6.3 | 22.6 |

| | POBLOGAETH A DEMOGRAFFI | | | | | | | | | | ECONOMI | | | TAI | | | | IECHYD A LLES | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ardal | % Siaradwyr Cymraeg (2011) | Siaradwyr Cymraeg % Newid (Nifer) 01-11 | Cyfanswm Poblogaeth % Newid 01-11 | Poblogaeth 0-19 oed % Newid (nifer) 01-11 | Poblogaeth 20-29 oed % Newid (nifer) 01-11 | Poblogaeth 30-64 oed % Newid (nifer) 01-11 | Poblogaeth 65+ oed % Newid (nifer) 01-11 | % Mudwyr (2011) | Mudwyr % Newid 021-11 | % Geni yng Nghymru (2011) | Geni yng Nghymru: % Newid: 01-11 | Yn Actif yn Economaidd % | Yn Actifedd Economaidd % Newid 01-11 | Canolrif Incwm Aelwydydd (2011) | % 2IL / Tai Haf (2011) | 2ail dai / tai haf % newid 01-11 | Ffforddiadwyedd Tai (cymhareb) (2011) | Canolrif prisiau tai (2011) | Cyfradd - pob trosedd ac ASB bob 1,000 o bobl (2012) | % gyda salwch cyfyngiedig tymor hir (2011) |
| wardcas:00NANR : Tysilio | 59.2 | -5.1 | 3.3 | - 14.7 | 29.8 | 6.8 | 6.0 | | | 68.5 | -6.2 | 71.6 | 18.1 | £24,374 | | | 5.54 | £135,000 | 1.9 | 17.4 |
| wardcas:00NANS : Valley | 54.7 | -2.3 | -2.2 | - 14.5 | - 14.1 | - 9.2 | 44.5 | | | 64.5 | 1.6 | 63.3 | -1.0 | £28,458 | | | 4.76 | £135,500 | 3.8 | 22.5 |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Gwynedd** | **65.4** | **-1.1** | **4.3** | **- 2.1** | **13.7** | **1.4** | **13.2** | | | **66.8** | **-4.3** | **65.2** | **14.5** | **£23,276** | | | **5.67** | **£ 132,000** | **5.6** | **20.5** |
| 25-44 | 0.8 | 0.7 | 0.0 | 0.7 | 0.7 | 0.0 | 0.7 | 0.7 | 0.0 | 0.8 | 0.8 | 0.0 |
| 45-64 | 0.5 | 0.3 | 0.1 | 0.4 | 0.3 | 0.1 | 0.4 | 0.3 | 0.1 | 0.9 | 0.6 | 0.2 |
| 65+ | 0.2 | 0.2 | 0.0 | 0.2 | 0.2 | 0.0 | 0.2 | 0.2 | 0.0 | 0.3 | 0.4 | -0.1 |

*Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol*

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Niwtral – Dim cynnydd na gostyngiad | | Cynnydd Net | | Gostyngiad Net |

Gwynedd

- Ar sail ymfudo yn gyffredinol, gwelir gostyngiad net ym mhoblogaeth y rhai sydd yn eu hugeiniau, tra bod cynnydd net ym mhoblogaeth y grŵp oedran rhwng 50-59.

- Ar sail ymfudo, gwelir cynnydd net sylweddol, ym mhob blwyddyn dan sylw, ym mhoblogaeth y grŵp oedran rhwng 15-19. Mae'n debygol mai un o'r prif resymau am hyn yw'r myfyrwyr sydd yn symud i Fangor er mwyn astudio yn y Brifysgol. Yn

yr un modd, mae'n debygol bod elfen o'r gostyngiad net ar gyfer pobl yn eu hugeiniau yn ymwneud â'r ffaith bod myfyrwyr yn symud o Fangor ar ôl cwblhau eu cyrsiau.

- Yn y pedair blynedd dan sylw, gwelir bod yna ostyngiad net, yn seiliedig ar ymfudo, ym mhoblogaeth y categori oed rhwng 25-44, tra bod yna gynnydd net ym mhob un o'r blynyddoedd hyn o ran y grŵp oedran rhwng 45-64. Nodir bod yna ostyngiad net wedi bod mewn tair o'r pedair blynedd o ran y boblogaeth yn y grŵp oedran dros 65, gyda'r ffigyrau ar gyfer y grŵp oedran rhwng 16-24 yn fwy ansefydlog.

Ynys Môn

- Ar sail ymfudo, gwelir gostyngiad net ym mhob blwyddyn dan sylw, ym mhoblogaeth y grŵp oedran rhwng 15-19. Tra bu cynnydd bychan yng nghyfradd net poblogaeth y grŵp oedran rhwng 20-24 mewn tair o'r pedair blynedd dan sylw, nodir bod gostyngiad net, ar gyfer pob blwyddyn dan sylw, ym mhoblogaeth y grŵp oedran rhwng 16-24.
- Mae graddfa ymfudo ar gyfer y mwyafrif o grwpiau oedran yn Ynys Môn yn niwtral. Fodd bynnag, yn y pedair blynedd dan sylw, nodir bod peth cynnydd wedi bod, yn seiliedig ar ymfudo, ym mhoblogaeth y grŵp oedran rhwng 45-64 .

Awgryma'r rhagamcanion mewn patrymau ymfudo y bydd cynnydd net blynyddol o thua 300 o bobl yng Ngwynedd a 200 yn Ynys Môn, yn seiliedig ar y raddfa ymfudo yn unig. Rhagamcanir hefyd y bydd mwy o bobl yn symud i mewn i ardal y Cynllun yn hytrach na symud allan.

**Rhagdybiaeth o'r lefelau ymfudo ar gyfer cyfnod 2008-2033 (ar sail 2008) – Llywodraeth Cymru**

(Mae'r ffigyrau isod yn cyfeirio at y lefel ymfudo blynyddol ar gyfer pob blwyddyn dan sylw h.y. 2008-2033.)

| | Ymfudo (cyfanswm) | | | Ymfudo mewnol | | | Ymfudo rhyngwladol | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | I mewn | Allan | Net | I mewn | Allan | Net | I mewn | Allan | Net |
| Gwynedd | 5,900 | 5,600 | 300 | 5,300 | 5,100 | 100 | 600 | 500 | 100 |
| Ynys Môn | 2,500 | 2,300 | 200 | 2,300 | 2,100 | 200 | 100 | 100 | 0 |

**Asesiad Effaith Ieithyddol**

Fel y nodwyd ym maen prawf 1 uchod, gall datblygiad newydd, yn enwedig tai newydd, arwain at fewnlifiad o gyfradd fawr o drigolion nad ydynt yn siarad Cymraeg i ardal, sydd yn debygol o danseilio cymunedau llai sy'n siarad Cymraeg yn bennaf a gwneud cymhathu yn anodd. Ar y llaw arall, gall fod yn bosib i lefel y cynnydd gael

effeithiau cadarnhaol anuniongyrchol ar yr iaith Gymraeg oherwydd gall prisiau tai is a mwy o dai fforddiadwy gynorthwyo i gadw gafael ar y boblogaeth bresennol. Mae'r Strategaeth a Ffafrir sydd ar fin ei chyhoeddi yn rhoi pwyslais mawr ar ddarparu cyfleoedd tai i ddiwallu anghenion y gymuned leol, yn enwedig anghenion pobl ifanc a'r henoed. Bydd y dosbarthiad tai hwn ar draws Ardal y Cynllun yn rhoi mwy o ddewis a mwy o hyblygrwydd i bobl allu aros yn eu cymunedau. Bydd y strategaeth yn darparu ar gyfer y twf poblogaeth a ragwelir.

Mae union effaith y twf mewn tai ar yr iaith Gymraeg yn ansicr ar hyn o bryd. Gall fod yn bosib i lefel y twf gael effeithiau cadarnhaol anuniongyrchol ar yr iaith Gymraeg oherwydd gall prisiau tai is a mwy o dai fforddiadwy gynorthwyo i gadw gafael ar y boblogaeth bresennol. I'r gwrthwyneb, gallant hefyd annog poblogaeth ddi-Gymraeg i symud i mewn. Mae'r cwestiwn a yw'r newid mewn patrymau ymfudo yn effeithio ar y nifer o siaradwyr Cymraeg yn dibynnu i raddau helaeth ar yr ardal a'r math o gynigion a wneir i'r ardal honno. Dengys y tablau a gynhwysir yn y dadansoddiad gwaelodlin uchod bod y mwyafrif o bobl sydd yn symud i gartrefi newydd yn byw naill ai yng Ngwynedd neu Ynys Môn yn barod, sydd yn awgrymu na fydd unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg yn debygol o fod yn sylweddol.

Yn ogystal, mae'r strategaeth yn hwyluso'r ddarpariaeth o gyfleoedd economaidd drwy ardal y Cynllun. Dylai hyn hefyd gynorthwyo i gadw pobl ifanc mewn cymunedau, yn enwedig y rhai mwyaf gwledig, gan felly gynnal neu wella'r cydbwysedd demograffig o fewn cymunedau.

Mae Polisi PS14 (Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig) hefyd yn hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn ardal y Cynllun yn uniongyrchol, ac yn ceisio osgoi unrhyw niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd ieithyddol cymuned a grëir gan ddatblygiad amhriodol.

Mae'n hollbwysig bod y Cynllun yn darparu cyflenwad digonol o dai i ddiwallu anghenion lleol er mwyn cadw'r boblogaeth yn eu cymunedau. Ystyrir bod y strategaeth yn darparu ar gyfer y newidiadau a ragwelir yn y boblogaeth yn ystod cyfnod y Cynllun.

**Goblygiadau i CDLl ar y Cyd (Adneuo)**

Dylai polisïau manwl yn y Cynllun Adneuo:

- sicrhau cydbwysedd yng nghyfansoddiad cymdeithasol cymunedau drwy hwyluso datblygiad sydd yn diwallu anghenion cymdeithasol ac economaidd pob rhan o gymdeithas, a fydd felly'n sicrhau cadw gafael ar y boblogaeth a gwneud yr ardal yn fwy deniadol i bobl oed gwaith sydd wedi gadael yr ardal i ddychwelyd.

- sicrhau bod y dyraniadau tai mewn ardaloedd priodol a hwyluso'r datblygiad o gymysgedd priodol o fathau o dai, gan gynnwys tai fforddiadwy, sy'n diwallu anghenion lleol trigolion y cymunedau yn hytrach na gofynion mewnfudo neu anghenion cartrefi gwyliau.

- hwyluso darpariaeth ddigonol o dai fforddiadwy ar gyfer angen lleol sydd yn diwallu gofynion cymunedau.
- hyrwyddo datblygiad economaidd priodol a darparu cyfleoedd economaidd, yn cynnwys mewn ardaloedd gwledig, i sicrhau bod yr ardal yn ddeniadol i'r boblogaeth bresennol a'r rhai a fyddai'n dymuno dychwelyd i'r ardal.
- gofyn am Asesiadau Effaith Ieithyddol fel rhan o geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau sydd yn debygol o gael effaith ar yr iaith Gymraeg.
- Adolygu'r Canllaw Cynllunio Atodol presennol a'i addasu'n briodol.

| |
|---|
| **3. Ydy'r strategaeth yn debygol o arwain at allfudo?** |
| a) Ydy'r broses o allfudo yn debygol o arwain at golled o aelwydydd sy'n siarad Cymraeg? |
| b) A fydd unrhyw newid yn barhaol neu dros dro? |
| **Cefndir** |
| Mae pobl yn allfudo o gymuned benodol yn dibynnu ar y math o ddatblygiad sy'n digwydd, yn ogystal â strwythur poblogaeth presennol y gymuned benodol. Er enghraifft, gall trosi cyfleusterau cymdeithasol ar gyfer defnydd preswyl annog pobl ifanc i beidio ag aros yn y gymuned neu ddychwelyd iddi. Enghraifft allweddol arall yw'r diffyg cyfleoedd cyflogaeth ac/neu gyfleoedd i ennill y sgiliau perthnasol i gael mynediad i'r farchnad gyflogaeth. |
| **Dadansoddiad Gwaelodlin** |
| Gweler dadansoddiad gwaelodlin ar gyfer maen prawf 2 uchod. |
| **Asesiad Effaith Ieithyddol** |
| Dylai dosbarthiad mwy cyfatebol o ddatblygiad drwy ardal y Cynllun, yn cynnwys cefn gwlad, fod yn gymorth i gefnogi bywiogrwydd cymunedol drwy ddarparu tai, cyfleusterau a gwasanaethau'n lleol, ble mae gofyn amdanynt ac maent yn gyraeddadwy drwy amryw ddulliau o deithio. Yn ei dro, dylai hyn hyrwyddo cadw'r boblogaeth gynhenid a chan hynny hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg.<br><br>Mae Polisi PS3 (Strategaeth anheddleoedd) yn amlinellu'r hierarchaeth ar gyfer darpariaeth gwasanaeth a buddsoddiad, dosbarthiad gofodol tai ac mae Polisi PS8 yn darparu'r fframwaith i ddosbarthu twf cyflogaeth drwy ardal y Cynllun. Mae'r |

Strategaeth a Ffafrir sydd ar fin ei chyhoeddi yn cydnabod bod gan ganolfannau a phentrefi llai, os ydynt am aros yn gynaliadwy, gyfle i roi lle i ddatblygiadau newydd. Bydd hyn yn gwarchod y lefel o gyfleusterau a gwasanaethau mewn aneddiadau presennol. Er mwyn ymdrin â'r angen lleol am dai mewn ardaloedd mwy gwledig, mae clystyrau all dderbyn datblygiadau mewnlenwi ar raddfa fechan hefyd yn cael eu hadnabod. Yn gyffredinol, mae'r Polisi yn sicrhau bod graddfa'r datblygiad yn addas i faint yr anheddiad a bod capasiti iethyddol yn cael ei ystyried. Yn ychwanegol, mae'r Polisi yn pennu na fydd unrhyw safle tai marchnad agored yn cael ei ddyrannu mewn rhai mathau o Bentrefi ac ym mhob Clwstwr, a ddylai fod yn haws i bobl leol brynu cartrefi newydd, ac yn ei dro, annog pobl ifanc sy'n siarad Cymraeg i aros yn eu cymunedau neu ddychwelyd.

Mae Polisïau PS11 (Darpariaeth tai cytbwys) a PS12 (Tai fforddiadwy) yn uniongyrchol yn hwyluso nifer digonol o dai i ddiwallu anghenion cymunedau lleol o ran y math o dai a'u fforddiadwyedd. Yn ogystal, maent yn hwyluso datblygiad ystod o fathau o dai a daliadaeth i ddiwallu anghenion pob rhan o'r boblogaeth gan gynnwys tai ar gyfer pobl hŷn. Bydd hyn yn cynorthwyo i greu cymunedau cynaliadwy a chynhwysol.

Mae'r Strategaeth a Ffafrir sydd ar fin ei chyhoeddi yn anelu at ddiogelu safleoedd neu ddynodi ardaloedd cyflogaeth penodol yn bennaf oddi mewn i'r Ganolfan Isranbarthol a'r canolfannau Gwasanaeth Trefol, gan ddyrannu rhai ardaloedd oddi mewn i'r Canolfannau Gwasanaeth Gwledig. Cefnogir cyfleoedd cyflogaeth priodol ar raddfa fechan yn y Pentrefi, y clystyrau a chefn gwlad hefyd, ac o'u hamgylch. Dylai hyn gynorthwyo i gadw pobl ifanc yn eu cymunedau, gan felly olygu y bydd yr iaith Gymraeg yn elwa.

Dylai polisïau strategol sydd yn ymwneud â'r economi, sef PS8, PS9 a PS10 fod o fudd i gymunedau drwy hwyluso datblygiad economaidd lleol a fydd yn gwella bywiogrwydd cymuned, gan felly gynorthwyo i gadw'r boblogaeth bresennol.

**Goblygiadau i CDLl ar y Cyd (Adneuo)**

Dylai polisïau manwl yn y Cynllun Adneuo:

- sicrhau cydbwysedd yng nghyfansoddiad cymdeithasol cymunedau drwy hwyluso datblygiad sydd yn diwallu anghenion cymdeithasol ac economaidd pob rhan o gymdeithas, a fydd felly'n sicrhau cadw gafael ar y boblogaeth a gwneud yr ardal yn fwy deniadol i bobl oed gwaith sydd wedi gadael yr ardal i ddychwelyd.

- sicrhau bod y dyraniadau tai mewn ardaloedd priodol a hwyluso'r datblygiad o gymysgedd priodol o fathau o dai, gan gynnwys tai fforddiadwy, sy'n diwallu anghenion lleol trigolion y cymunedau yn hytrach na gofynion mewnfudo neu anghenion cartrefi gwyliau.

- hwyluso darpariaeth ddigonol o dai fforddiadwy ar gyfer angen lleol sydd yn diwallu gofynion cymunedau.

- hyrwyddo datblygiad economaidd priodol a darparu cyfleoedd economaidd, yn cynnwys mewn ardaloedd gwledig, i sicrhau bod yr ardal yn ddeniadol i'r boblogaeth bresennol a'r rhai a fyddai'n dymuno dychwelyd i'r ardal.

## 4. A yw'r strategaeth yn debygol o arwain at newid strwythur oedran y gymuned?

a) Arwain at bobl ifanc / canol oed / hŷn sy'n siarad Cymraeg yn gadael / symud i'r ardal, gan arwain at:
i) Newidiadau mewn patrymau gweithgareddau traddodiadol, gan arwain at gynyddu'r awydd i symud ymaith?
ii) Tensiynau cymdeithasol / rhwydweithiau cymdeithasol traddodiadol yn dadfeilio

### Cefndir

Gall datblygiad ddylanwadu'n fawr ar strwythur y boblogaeth mewn unrhyw gymuned. Gall y math o ddatblygiad bennu p'un ai yw grŵp oedran penodol yn debygol o adael ardal a ph'un ai a yw grŵp oedran gwahanol yn debygol o symud i mewn.

### Dadansoddiad Gwaelodlin

**Dadansoddiad o boblogaeth Gwynedd yn ôl oedran a rhyw (canol-2010)**

| Oedran | Dynion | Merched | Pawb | Oedran | Dynion | Merched | Pawb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **0-4** | 3,276 | 3,228 | 6,504 | **50-54** | 3,547 | 3,783 | 7,330 |
| **5-9** | 3,106 | 2,927 | 6,033 | **55-59** | 3,630 | 3,722 | 7,352 |
| **10-14** | 3,471 | 3,315 | 6,786 | **60-64** | 4,340 | 4,252 | 8,592 |
| **15-19** | 4,378 | 4,434 | 8,812 | **65-69** | 3,428 | 3,593 | 7,021 |
| **20-24** | 5,090 | 5,026 | 10,116 | **70-74** | 2,630 | 2,984 | 5,614 |
| **25-29** | 3,194 | 3,077 | 6,271 | **75-79** | 2,048 | 2,587 | 4,635 |
| **30-34** | 2,746 | 2,737 | 5,483 | **80-84** | 1,430 | 2,202 | 3,632 |
| **35-39** | 3,281 | 3,327 | 6,608 | **85-89** | 775 | 1,510 | 2,285 |
| **40-44** | 3,475 | 3,780 | 7,255 | **90+** | 246 | 701 | 947 |
| **45-49** | 3,863 | 3,868 | 7,731 | | | | |
| **CYFANSWM** | | | | | 57,954 | 61,053 | 119,007 |


Ffynhonnell: *Stats Wales*

**Dadansoddiad o boblogaeth Ynys Môn yn ôl oedran a rhyw (canol-2010)**


| Oedran | Dynion | Merched | Pawb | Oedran | Dynion | Merched | Pawb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **0-4** | 2,007 | 1,827 | 3,834 | **50-54** | 2,204 | 2,324 | 4,528 |
| **5-9** | 1,888 | 1,731 | 3,619 | **55-59** | 2,286 | 2,369 | 4,655 |
| **10-14** | 2,018 | 1,932 | 3,950 | **60-64** | 2,607 | 2,919 | 5,526 |
| **15-19** | 2,160 | 2,008 | 4,168 | **65-69** | 2,345 | 2,340 | 4,685 |
| **20-24** | 1,929 | 1,726 | 3,655 | **70-74** | 1,828 | 1,899 | 3,727 |
| **25-29** | 1,778 | 1,652 | 3,430 | **75-79** | 1,217 | 1,449 | 2,666 |
| **30-34** | 1,608 | 1,741 | 3,349 | **80-84** | 863 | 1,212 | 2,075 |
| **35-39** | 1,872 | 1,957 | 3,829 | **85-89** | 393 | 818 | 1,211 |
| **40-44** | 2,060 | 2,305 | 4,365 | **90+** | 194 | 459 | 653 |
| **45-49** | 2,271 | 2,396 | 4,667 | | | | |
| **CYFANSWM** | | | | | 33,528 | 35,064 | 68,592 |

Ffynhonnell: *Stats Wales*

**Pyramid poblogaeth – Gwynedd (canol-2010)**




Ffynhonnell: *Stats Wales*




Gwynedd

- Mwy o bobl yn y grŵp oedran rhwng 20-24 yng Ngwynedd yn 2010 nag unrhyw grŵp oedran arall. Mae'n debygol bod y myfyrwyr sy'n mynychu Prifysgol Bangor yn ffactor bwysig mewn perthynas â hyn.
- Wedi hyn, y ddau grŵp oedran mwyaf poblog oedd 15-19 a 60-64.
- Roedd canran y boblogaeth yn y grŵp oedran rhwng 30-34 yn 2010 yn gymharol isel o'i gymharu â rhai o'r grwpiau oedran eraill ar y naill ochr iddo.

Ynys Môn

- Mae patrwm pyramid poblogaeth Ynys Môn yn 2010 ychydig yn wahanol i byramid poblogaeth Gwynedd.
- Mae cyfran y boblogaeth yn y categori oedran rhwng 20-24 yn is yn Ynys Môn nag yng Ngwynedd.
- Roedd mwy o bobl i'w cael yng ngrŵp oedran rhwng 60-64 yn Ynys Môn yn 2010

nag yn unrhyw grŵp oedran arall.

- Wedi hyn, y categorïau oedran mwyaf poblog oedd 65-69, 45-49, 55-59, 50-54 a 15-19 (y cwbl gyda mwy na 4,000 o bobl).
- Nodir bod y nifer o bobl yn y pedwar grŵp oedran rhwng 20 a 39 mlwydd oed i gyd yn llai na 4,000.

**Dosbarthiad hanesyddol y boblogaeth yng Ngwynedd**

| Blwyddyn | Cyfanswm y Boblogaeth | 0-15 mlwydd oed (nifer a chanran y boblogaeth) | 16-64 mlwydd oed (nifer a chanran y boblogaeth) | 65+ mlwydd oed (nifer a chanran y boblogaeth) |
|---|---|---|---|---|
| 2001 | 116,844 | 22,603 *(19.3%)* | 72,016 *(61.6%)* | 22,225 *(19.0%)* |
| 2002 | 117,231 | 22,578 *(19.3 %)* | 72,236 *(61.6%)* | 22,417 *(19.1%)* |
| 2003 | 117,787 | 22,477 *(19.1%)* | 72,696 *(61.7%)* | 22,614 *(19.2%)* |
| 2004 | 118,340 | 22,170 *(18.7%)* | 73,463 *(62.1%)* | 22,707 *(19.2%)* |
| 2005 | 118,100 | 21,825 *(18.5%)* | 73,450 *(62.2%)* | 22,825 *(19.3%)* |
| 2006 | 118,370 | 21,718 *(18.3%)* | 73,672 *(62.2%)* | 22,980 *(19.4%)* |
| 2007 | 118,585 | 21,517 *(18.1%)* | 73,890 *(62.3%)* | 23,178 *(19.5%)* |
| 2008 | 118,590 | 21,170 *(17.9%)* | 73,893 *(62.3%)* | 23,527 *(19.8%)* |
| 2009 | 118,767 | 20,946 *(17.6%)* | 73,908 *(62.2%)* | 23,913 *(20.1%)* |
| 2010 | 119,007 | 20,765 *(17.4%)* | 74,108 *(62.3%)* | 24,134 *(20.3%)* |
| **Gwahaniaeth 2001-10 (canran)** | +1.9% | -8.1% | +2.9% | +8.6% |

**Dosbarthiad hanesyddol y boblogaeth yn Ynys Môn**

| Blwyddyn | Cyfanswm y Boblogaeth | 0-15 mlwydd oed (nifer a chanran y boblogaeth) | 16-64 mlwydd oed (nifer a chanran y boblogaeth) | 65+ mlwydd oed (nifer a chanran y boblogaeth) |
|---|---|---|---|---|
| 2001 | 67,806 | 13,219 *(19.5%)* | 41,775 *(61.6%)* | 12,812 *(18.9%)* |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2002 | 67,862 | 13,099 *(19.3 %)* | 41,782 *(61.6%)* | 12,981 *(19.1%)* |
| 2003 | 68,050 | 12,947 *(19.0%)* | 41,935 *(61.6%)* | 13,168 *(19.4%)* |
| 2004 | 68,271 | 12,880 *(18.9%)* | 42,013 *(61.5%)* | 13,378 *(19.6%)* |
| 2005 | 68,483 | 12,772 *(18.6%)* | 42,120 *(61.5%)* | 13,591 *(19.8%)* |
| 2006 | 68,647 | 12,666 *(18.5%)* | 42,225 *(61.5%)* | 13,756 *(20.0%)* |
| 2007 | 68,763 | 12,526 *(18.2%)* | 42,205 *(61.4%)* | 14,032 *(20.4%)* |
| 2008 | 68,799 | 12,369 *(18.0%)* | 42,017 *(61.1%)* | 14,413 *(20.9%)* |
| 2009 | 68,768 | 12,328 *(17.9%)* | 41,732 *(60.7%)* | 14,708 *(21.4%)* |
| 2010 | 68,592 | 12,289 *(17.9%)* | 41,286 *(60.2%)* | 15,017 *(21.9%)* |
| **Gwahaniaeth 2001-10 (canran)** | +1.2% | -7.0% | -1.2% | +17.2% |

Ffynhonnell: *Stats Wales*

- Mae nifer y bobl o dan 16 mlwydd oed (o ran nifer a chanran) wedi gostwng bob blwyddyn rhwng 2001 a 2010 yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Bu gostyngiad sylweddol yn nifer yr unigolion o fewn y categori oedran hwn yn ardaloedd y ddau awdurdod lleol rhwng 2001 a 2010.

- Mae nifer y bobl dros 65 mlwydd oed wedi cynyddu'n flynyddol yng Ngwynedd ac Ynys Môn rhwng 2001 a 2010. Bu cynnydd sylweddol yn nifer yr unigolion o fewn y categori oedran hwn yn ardaloedd y ddau awdurdod lleol rhwng 2001 a 2010.

- Mae canran y boblogaeth sydd dros 65 mlwydd oed wedi cynyddu'n flynyddol yng Ngwynedd ac Ynys Môn rhwng 2001 a 2010 (ac eithrio 2003-04 yng Ngwynedd, pan oedd y ffigwr yn sefydlog).

- Gellir gweld yr un tueddiadau yng Ngwynedd ac Ynys Môn o ran yr agweddau hyn.

**Asesiad Effaith Ieithyddol**

Mae'r Strategaeth a Ffafrir sydd ar fin ei chyhoeddi yn cydnabod fod y boblogaeth yn heneiddio. Mae dosbarthiad cyfatebol datblygiad, a hwyluswyd dan yr opsiwn gofodol hwn a ffafrir, yn debygol o annog pobl ieuengach i aros yn eu cymunedau neu ddychwelyd iddynt, gan greu cymunedau mwy cytbwys fydd o ganlyniad yn gwella hyfywedd cymunedol a chydlyniant yn Ardal y Cynllun cyfan. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy gynnig amrywiaeth o dai, gan gynnwys tai fforddiadwy, ynghyd â darparu ar gyfer ystod o anghenion cyflogaeth fydd wedi'u dosbarthu ar draws Ardal y Cynllun. Mae Polisi PS12 ar Dai Fforddiadwy yn benodol â'r bwriad o hwyluso datblygiad tai fforddiadwy sy'n diwallu anghenion lleol ac a ddylai annog pobl ifanc i aros yn eu cymunedau.

Mae'r Strategaeth a Ffafrir sydd ar fin ei chyhoeddi yn anelu at ddiogelu safleoedd neu ddynodi ardaloedd cyflogaeth penodol yn bennaf oddi mewn i'r Ganolfan Isranbarthol a'r canolfannau Gwasanaeth Trefol, gan ddyrannu rhai ardaloedd oddi mewn i'r Canolfannau Gwasanaeth Gwledig. Cefnogir cyfleoedd cyflogaeth priodol ar raddfa fechan yn y Pentrefi, y clystyrau a chefn gwlad hefyd, ac o'u hamgylch. Hefyd, dylai hyn gynorthwyo i gadw pobl ifanc yn eu cymunedau, gan felly olygu y bydd yr iaith Gymraeg yn elwa.

Er mwyn cyfarch y boblogaeth sy'n heneiddio, mae'n bwysig darparu ystod o dai addas, ynghyd â darpariaeth o ddatblygiadau gofal preswyl fel gall y boblogaeth hŷn aros yn eu cymunedau. Bydd cyfran sylweddol o'r cynnydd a ragwelir mewn aelwydydd yn y dyfodol yn bobl dros 65 mlwydd oed, felly ceisir am ddarpariaeth o dai addas ar gyfer pobl hŷn, yn enwedig mewn cynlluniau datblygiadau mawr.

Fodd bynnag, gan fod nifer o wasanaethau allweddol (e.e. gwasanaethau a chyfleusterau iechyd) wedi'u lleoli yn yr aneddiadau allweddol, gallai pobl hŷn mewn cymunedau gwledig ei chael hi'n anodd cael mynediad atynt. Bydd yr union effaith yn dibynnu ar leoliad y datblygiad (tai yn ogystal â datblygiad iechyd perthnasol) mewn perthynas â rhwydwaith trafnidiaeth effeithiol.

Ar y cyfan, fodd bynnag, mae'n anodd rhagweld yr union ystod o effeithiau posib ar strwythur oedran y boblogaeth yn Ardal y Cynllun. Dibynna llawer ar amryw o ffactorau gan gynnwys y ddarpariaeth o gyfleusterau a gwasanaethau mewn aneddleoedd, prisiau tai a chyfleoedd cyflogaeth.

**Goblygiadau i CDLl ar y Cyd (Adneuo)**

Dylai polisïau manwl yn y Cynllun Adneuo:

- hwyluso'r datblygiad o system gludiant effeithiol a chynaliadwy a fyddai'n galluogi pobl o bob grŵp oedran, ond yn enwedig pobl hŷn, i gael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau allweddol sydd wedi'u lleoli yn y prif aneddiadau.
- hwyluso tai addas i bobl o bob oed.
- sicrhau bod yna bolisïau hyblyg ar gyfer cyfleoedd economaidd mewn ardaloedd gwledig, gan gynnwys arallgyfeirio amaethyddol.
- sicrhau cydbwysedd yng nghyfansoddiad cymdeithasol cymunedau drwy hwyluso datblygiad sydd yn diwallu anghenion cymdeithasol ac economaidd pob rhan o gymdeithas, a fydd felly'n sicrhau cadw gafael ar y boblogaeth a gwneud yr ardal yn fwy deniadol i bobl oed gwaith sydd wedi gadael yr ardal i ddychwelyd.
- sicrhau bod y dyraniadau tai mewn ardaloedd priodol a hwyluso'r datblygiad o gymysgedd priodol o fathau o dai, gan gynnwys tai fforddiadwy, sy'n diwallu anghenion lleol trigolion y cymunedau yn hytrach na gofynion mewnfudo neu anghenion cartrefi gwyliau.

- hyrwyddo datblygiad economaidd priodol a darparu cyfleoedd economaidd, yn cynnwys mewn ardaloedd gwledig, i sicrhau bod yr ardal yn ddeniadol i'r boblogaeth bresennol a'r rhai a fyddai'n dymuno dychwelyd i'r ardal.

## 5. A yw'r strategaeth yn debygol o effeithio ar iechyd pobl leol?

a) Cynyddu'r risg o salwch, felly lleihau'r atyniad i fyw yn y gymuned?

b) Posibilrwydd y gallai wneud bywyd yn ddrytach, felly cynyddu'r risg o broblemau / straen ariannol ar y boblogaeth leol sy'n siarad Cymraeg.

### Cefndir


Mae cyswllt annatod rhwng iechyd a chymuned. Er enghraifft, gallai amddifadedd iechyd gynyddu os nad yw'r tai yn gweddu'r angen, os yw ffyrdd ac isadeiledd wedi'u cynllunio'n wael, os oes cyfleoedd cyfyngedig i gerdded neu i feicio neu os oes nifer cyfyngedig o fannau agored o werth hamddenol y gellir cael mynediad atynt. Gall y mathau hyn o ostyngiadau mewn ansawdd bywyd effeithio ar sefydlogrwydd y gymuned ac efallai fydd y bobl sy'n gallu fforddio yn symud i ffwrdd, gan achosi dirywiad cymdeithasol a all effeithio ar yr iaith Gymraeg yn y pen draw.

### Dadansoddiad Gwaelodlin

Yn 2001, disgrifiodd 70% o boblogaeth Gwynedd a 68% yn Ynys Môn eu hiechyd fel 'da', a oedd yn fwy na'r gyfradd iechyd 'da' ar gyfer Cymru sef 65.1%. Mae'r gyfradd i Wynedd yn uwch na'r un Awdurdod Unedol arall yng Nghymru. Roedd y gyfran gyffredinol o boblogaeth Cymru a ddisgrifiodd eu hiechyd fel 'dim yn dda' yn Uwch na'r ffigyrau cymharol ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn, fel y dengys y tabl isod:

**Iechyd Cyffredinol (2001)**

| | | Iechyd da | | Iechyd gweddol dda | | Iechyd Ddim yn Dda | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Pawb** | **Rhif** | **%** | **Rhif** | **%** | **Rhif** | **%** |
| **Ynys Môn** | 66,168 | 44,825 | 68 | 14,557 | 22 | 6786 | 10.2 |
| **Gwynedd** | 113,835 | 79,260 | 70 | 23,905 | 21 | 10,670 | 9.4 |
| **Cymru** | 2,903,085 | 1,888,849 | 65.1 | 652,769 | 22.5 | 361,467 | 12.5 |




Mae'r tabl a ganlyn yn dangos iechyd cyffredinol y boblogaeth yn ôl pob ward.

**Iechyd Cyffredinol yn ôl Ward (2001)**

| Pawb | % y bobl a ddisgrifiodd eu hiechyd fel 'da' | % y bobl a ddisgrifiodd eu hiechyd fel 'ddim yn dda' |
|---|---|---|
| **Uchaf** | Bethel (Gwynedd) (78.2) | Talysarn (Gwynedd) (14) |
| **Ail Uchaf** | Cwm y Glo (Gwynedd) (78.2) | Aberffraw (Gwynedd) (13.6) |
| **Trydydd Uchaf** | Pentir (Gwynedd) (76.3) | Morawelon (Ynys Môn (13) |
| **Trydydd Isaf** | Llanbedrgoch (Ynys Môn (61.3) | Llanuwchllyn (Gwynedd) (6.3) |
| **Ail isaf** | Tywyn (Gwynedd)(61.1) | Cwm Cadnant (Ynys Môn (6) |
| **Isaf** | Dyffryn Ardudwy (Gwynedd) (60) | Bethel (Gwynedd) (4.9) |


Yn 2001, nododd 20.1% o boblogaeth Gwynedd fod ganddynt salwch cyfyngus hirdymor o gymharu â 22.7% o boblogaeth Cymru. Roedd gan Ynys Môn

Gyfran ychydig yn uwch (21.7%) er bod hyn yn is na'r ffigwr cenedlaethol.

**Salwch Cyfyngus Hirdymor**

| Pawb | | Â salwch cyfyngus tymor hir | |
|---|---|---|---|
| | | Rhif | % |
| Gwynedd | 113,837 | 24,122 | 20.6 |
| Ynys Môn | 66,167 | 14,406 | 21.7 |
| Cymru | 2,903,085 | 675,662 | 23.3 |

**Salwch cyfyngus hirdymor yn ôl Awdurdod Unedol (2001)**




Roedd gan 13 o wardiau Gwynedd ganran oedd yn uwch na'r cyfartaledd i Gymru. Y pedair ward yng Ngwynedd oedd â'r cyfraddau uchaf o Salwch Cyfyngus Hirdymor oedd Llanbedrog (31%), Talysarn (26.4%), Cadnant Caernarfon (26%) a Phenygroes (25.6%).

Roedd gan 17 o wardiau Ynys Môn ganran oedd yn uwch na'r cyfartaledd i Gymru. Y pum ward yn Ynys Môn oedd â'r cyfraddau uchaf o Salwch Cyfyngus Hirdymor oedd Llanbedrgoch (28.5%), Aberffraw (26.5%), Rhosyr (26.3%), Maeshyfryd (26.2%) ac Amlwch Gwledig (25.7%).

**Cyflyrau Iechyd Cyffredinol (2009-2010)**

| | Gwynedd | Ynys Môn | Cymru |
|---|---|---|---|
| **% yr oedolion sy'n adrodd eu bod ar hyn o bryd yn derbyn triniaeth ar gyfer pwysedd gwaed uchel** | 18 | 19 | 20 |
| **% yr oedolion sy'n adrodd eu bod ar hyn o bryd yn derbyn triniaeth ar gyfer cyflwr ar y galon** | 9 | 8 | 9 |
| **% yr oedolion sy'n adrodd eu bod ar hyn o bryd yn derbyn triniaeth ar gyfer salwch resbiradol** | 12 | 14 | 14 |
| **% yr oedolion sy'n adrodd eu bod ar hyn o bryd yn derbyn triniaeth ar gyfer salwch meddwl** | 7 | 9 | 10 |
| **% yr oedolion sy'n adrodd eu bod ar hyn o bryd yn derbyn triniaeth ar gyfer clefyd siwgr** | 6 | 5 | 6 |
| **% yr oedolion sy'n adrodd eu bod ar hyn o bryd yn derbyn triniaeth ar gyfer arthritis** | 12 | 11 | 13 |

Y baich mwyaf o ran salwch ymysg y boblogaeth y dyddiau hyn yw cyflyrau cronig hirdymor, gan gynnwys clefyd y galon, clefyd siwgr, arthritis, cyflyrau anadlol,cyflyrau niwrolegol megis epilepsi a phoen cronig. Nid yn unig y mae'r cyflyrau hyn yn cyfyngu ar ansawdd bywyd y rhai sy'n dioddef ohonynt, ond os cânt eu rheoli'n wael, meant yn arwain at fynediad diangen i'r ysbyty, iselder a phryder, ynysiad, amryw driniaethau cyffuriau a chynnydd yn y galw am ofal dydd gan ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol, sefydliadau gwirfoddol neu ofalwyr anffurfiol megis ffrindiau teulu (*Strategaeth Iechyd a Lles Gwynedd 2007-2011*).

Mae gan Wynedd ac Ynys Môn gyfradd gancr uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (418 a 424.2 o bob 100,000 yn y drefn honno, o gymharu â 410 yng Nghymru rhwng 2004 a 2006)[5].

**Asesiad Effaith Ieithyddol**

Ni ystyrir y bydd y strategaeth a'r cynigion arfaethedig yn debygol o gael effaith negyddol ar iechyd y boblogaeth am nifer o resymau.

Mae dosbarthiad cyfatebol datblygiad yn ardal y Cynllun yn diwallu anghenion y boblogaeth drefol yn ogystal â'r boblogaeth wledig ac yn sicrhau bod gan gyfran fwy o'r boblogaeth fynediad da i wasanaethau a chyfleusterau economaidd-gymdeithasol. Felly, byddai'r manteision iechyd cyffredinol yn cael eu dosbarthu'n

gyfartal ar draws Ardal y Cynllun. Drwy hyrwyddo tai newydd a darparu datblygiad economaidd bydd y Strategaeth yn gwella bywiogrwydd a lles y gymuned.

Bydd y strategaeth yn helpu i sicrhau'r ddarpariaeth o isadeiledd, gwasanaethau a chyfleusterau sydd eu hangen i gynnal a gwella cymunedau. Mae'r polisïau i gynorthwyo gwireddu'r deilliant hwn yn cynnwys PS5 (Cyfraniadau at yr Isadeiledd gan ddatblygwyr), PS6 (Cynigion am brosiectau isadeiledd mawr), PS20 (Isadeiledd Cymunedol) a PS22 (Cludiant, datblygiad a hygyrchedd cynaliadwy). Bydd y rhain yn cynorthwyo i gefnogi mentrau sy'n adeiladu cymunedau sefydlog, diogel, iach a chryf sy'n golygu parchu a gwella'r iaith Gymraeg a'i diwylliant.

Bydd canolbwyntio'r mwyafrif o'r datblygiad yn y prif ganolfannau hefyd yn golygu y byddai preswylwyr yn agosach at wasanaethau, cyfleusterau a chyfleoedd cyflogaeth, felly lleihau'r angen i deithio a ddylai gynorthwyo i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â chludiant preifat a gwella iechyd y boblogaeth gyffredinol.

**Goblygiadau CDLl ar y Cyd (Adneuo)**

Dylai polisïau manwl yn y Cynllun Adneuo:

- hyrwyddo bywydau iach gan hwyluso datblygiad ffyrdd iach i deithio gan gynnwys cerdded a beicio.
- sicrhau bod yr holl gymunedau yn ardal y Cynllun wedi'u cysylltu i rwydwaith trafnidiaeth gynaliadwy.
- hyrwyddo mynediad hawdd i lecynnau agored, gwasanaethau, cyfleusterau hamdden a chwaraeon a llecynnau agored.
- hwyluso datblygiad cyfleusterau gofal iechyd addas sy'n hygyrch i bob rhan o'r gymuned.

| **6. A yw'r strategaeth yn debygol o effeithio ar fwynderau'r ardal leol?** |
| --- |
| a) Dirywiad yn yr ansawdd amgylcheddol, felly lleihau'r atyniad i fyw yn y gymuned? |
| **Cefndir** |
| Gall dirywiad yn yr ansawdd amgylcheddol neu'r mwynderau cyffredinol arwain at gartrefi sydd â mwy o arian i'w wario yn allfudo. Yn ei dro, gall hyn effeithio ar y cydbwysedd o breswylwyr sy'n siarad Cymraeg / Saesneg. |
| **Dadansoddiad Gwaelodlin** |
| Mae gan Wynedd ac Ynys Môn adnodd bioamrywiaeth gyfoethog ac amrywiol. Yn 2005, roedd 36% o 'gynefinoedd blaenoriaeth' yng Nghymru yn sefydlog neu'n cynyddu o gymharu â 30% yn 2002. Mae cynlluniau gweithredu cynefinoedd a rhywogaethau'r ddau awdurdod yn adnabod nifer o rywogaethau a chynefinoedd pwysig ac yn amlinellu statws y cynefin/rhywogaeth dan sylw, y ffactorau sy'n effeithio arnynt ynghyd â'r gweithredoedd arfaethedig er mwyn mynd ati i wella eu statws. Er mwyn gwella cyflwr y rhywogaethau a'r cynefinoedd hyn, rhaid rheoli eu nodweddion yn effeithiol.<br><br>Mae gan ardal y CDLl ar y cyd amrywiaeth eang o safleoedd dynodedig dan ddeddfwriaeth genedlaethol a rhyngwladol yn sgil eu gwerth ecolegol a bioamrywiaeth. Fodd bynnag, mae cyflwr sawl un o'r safleoedd hyn dan fygythiad cyson.<br><br>Yn 2009, barnwyd bod 66 Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yng Ngwynedd mewn cyflwr anffafriol tra barnwyd bod 72 ohonynt mewn cyflwr ffafriol. Gall pwysau ar ddatblygiad, er enghraifft, o fwy o weithgarwch hamdden gyfrannu at amrediad ehangach o faterion, megis newid hinsawdd sy'n bygwth cyflwr Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.<br><br>Mae pwysau ar Warchodfeydd Natur Cenedlaethol (GNCau) sy'n ymwneud â chynlluniau datblygu yn cynnwys newid hinsawdd, rhywogaethau ymledol, problemau draenio, cyfoethogiad maethol o darddleoedd dŵr allanol, newidiadau mewn lefelau dŵr, datblygu arfordirol ac amddiffyniad rhag llifogydd ac ansawdd dŵr gwael. Ar raddfa genedlaethol, ym mis Mai 2008, barnwyd mai dim ond 43% o GNCau oedd â statws ffafriol h.y. mae gan yr holl nodweddion a aseswyd statws adfer ffafriol neu anffafriol.<br><br>Mae safleoedd Natura 2000 hefyd yn wynebu pwysau sylweddol ar hyn o bryd. Mae bygythiadau i'r safleoedd hyn yn cynnwys datblygiadau arfordirol (e.e. llithrfeydd, marinas, harbyrau), arferion amaethyddol, ffyrdd newydd, twristiaeth a phwysau hamdden, llygredd dŵr, effeithiau gwastraff (e.e. tipio slei bach, ysbwriel), rhywogaethau ymledol, coedwigaeth, pori amhriodol ac effeithiau andwyol gan ddatblygiadau yn gyffredinol. Roedd 45% o'r holl rywogaethau Natura 2000 mewn |

cyflwr ffafriol rhwng 2000 a 2009 yng Nghymru.

Mae gan ardal y CDLl ar y cyd hefyd adnodd tirlun gwerthfawr iawn sy'n cynnwys nifer o ardaloedd dynodedig megis parciau a gerddi hanesyddol, ardaloedd gwarchod tirluniau, tirluniau hanesyddol ac AHNEau. Mae'r ardal hefyd yn adnabyddus am ei thirweddau arfordirol a morol ac mae holl arfordir Ynys Môn wedi'i ddynodi'n AHNE. Mae AHNE Penrhyn Llŷn yng Ngwynedd hefyd yn rhannu statws arfordir treftadaeth oherwydd ei asedau hanesyddol, daearegol, daearyddol ac ecolegol gyfoethog.

Mae gan Wynedd ac Ynys Môn yr ail a'r nawfed nifer uchaf, yn ôl eu trefn, o adeiladau rhestredig yng Nghymru. Fodd bynnag, mae cyfran o'r adeiladau hyn dan fygythiad ac mae 11% yng Ngwynedd wedi'u dynodi i fod 'mewn peryg' ac yn Ynys Môn, mae 12% o'r holl adeiladau rhestredig yn y categori hwn. Yn ogystal, mae gan Wynedd nifer gymharol uchel o Ardaloedd Cadwraeth – 40 i gyd (y nifer ail uchaf yng Nghymru), tra bod gan Ynys Môn 12 o'r dynodiadau hyn.

**Asesiad Effaith Ieithyddol**

Dylai datblygiad newydd sydd wedi'i reoli'n iawn, gynnal ardaloedd o bwysigrwydd hanesyddol / diwylliannol neu wella ansawdd yr amgylchedd adeiladol presennol. Gan fod yr opsiwn gofodol a ffafrir yn caniatáu dosbarthu datblygiadau mewn modd sy'n fwy cymesur, bydd yr effaith posib ar yr amgylchedd, gan gynnwys tirweddau a threfweddau yn fwy gwasgaredig ar draws Ardal y Cynllun.

Caniateir nifer cyfyngedig o ddatblygiadau newydd yn y rhan fwyaf o aneddiadau a fydd yn cyfrannu at batrymau twf naturiol aneddiadau a fydd wedyn yn llai tebygol o effeithio ar werthoedd amwynder ardaloedd lleol.

Er y gall patrwm datblygu gwasgaredig leihau cyfraniadau datblygwyr at gyfleusterau a mwynderau cyhoeddus, bydd y gwir effaith yn dibynnu'n fawr ar raddfa, natur a lleoliad datblygiadau newydd o ran trefweddau a thirweddau o werth. Byddai'n rhaid dylunio datblygiadau i safon uchel gan ymgorffori'r drefwedd a'r cymeriad gwledig presennol.

Nod y strategaeth yw cynnal y cymysgedd arbennig o gymeriad trefol / gwledig ardal y cynllun yn ogystal â'i gymeriad ieithyddol a diwylliannol nodedig. Bydd cymeriad unigol a swyddogaethau cyflenwol y canol trefi yn gwella drwy ddatblygiad, gwelliannau i'r stadau cyhoeddus, i gyfleusterau cludiant cyhoeddus ac i gysylltiadau cerddwyr / beicio. Bydd y strategaeth yn helpu i sicrhau'r ddarpariaeth o isadeiledd, gwasanaethau a chyfleusterau sydd eu hangen i gynnal a gwella cymunedau.

Nod Polisi PS1 (Datblygiad Cynaliadwy), PS15 (Gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol) a PS16 (Gwarchod a gwella'r asedau diwylliannol a hanesyddol) yw: hyrwyddo gwelliannau i'r amgylchedd adeiladu, hanesyddol a naturiol; gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol; a gwarchod a gwella'r asedau diwylliannol a hanesyddol yn ôl eu trefn; a dylai hyn oll gael effaith fanteisiol ar fwynderau.

| Goblygiadau CDLl ar y Cyd (Adneuo) |
|---|
| Dylai polisïau manwl yn y Cynllun Adneuo:<br><br>• sicrhau fod materion cymdeithasol yn derbyn ystyriaeth briodol wrth i'r Cynllun fynd yn ei flaen i greu polisïau / dynodiadau / arweiniad atodol penodol am safleoedd mwynder / cyfleusterau hamdden ar yr ynys.<br><br>• sicrhau fod datblygiad yn cael ei ddylunio i safon uchel nad yw'n cael effaith andwyol ar ffurf a chymeriad y drefwedd neu'r dirwedd o'i gwmpas a'r amgylchedd naturiol a hanesyddol.<br><br>• sicrhau lleihau'r effaith ar fwynderau gweledol a cheisio cyfleoedd i'w gyfoethogi.<br><br>• gofyn i ddatblygwyr, pan fo hynny'n briodol, i gyfrannu tuag at gyfoethogi neu wella mwynderau. |

**7. A yw'r strategaeth yn debygol o arwain at y peryg o fwy o droseddu a thrais yn y gymuned?**

a) Cynyddu'r risg o droseddu neu drais, felly lleihau'r atyniad i fyw yn y gymuned?

**Cefndir**

Gall mwy o droseddu, neu mwy o ofn trosedd gynyddu allfudo, a gall hyn fygwth y cydbwysedd cymdeithasol ac felly bydd yn debygol o weithio'n groes i fuddiannau'r iaith Gymraeg, sydd ond yn gallu ffynnu mewn cymunedau cytbwys a chynaliadwy.

**Dadansoddiad Gwaelodlin**

Mae gan Wynedd ac Ynys Môn gyfraddau trosedd cymharol isel o gymharu â gweddill Cymru gyda'r cyfraddau'n gostwng yn raddol. Yn 2006-2007, roedd trosedd yr adroddwyd amdani yng Ngwynedd ac Ynys Môn yn 73.5 a 67.7 i bob 100,000 o'r boblogaeth yn y drefn honno, o gymharu â 87.5 yng Nghymru. Yn 2009/10, Gwynedd ac Ynys Môn oedd â'r wythfed a'r bedwaredd gyfradd drosedd isaf yng Nghymru yn ôl eu trefn.


**Trosedd a Gofnodwyd 2006-07 (i bob 100,000 o'r boblogaeth)**

| | Ynys Môn | Gwynedd | Cymru |
|---|---|---|---|
| **Trosedd a gofnodwyd** | **67.7** | **73.5** | **87.5** |
| Trais yn erbyn person | 20.4 | 21.9 | 18.2 |
| Byrgleriaeth o dŷ | 1.3 | 1.7 | 3.6 |
| Dwyn cerbyd | 1.3 | 1.3 | 3.8 |
| Dwyn o gerbyd | 2.1 | 3.5 | 8.6 |

**Y Gyfradd Drosedd yng Ngwynedd (i bob 1,000 o bobl)**



**Y Gyfradd Drosedd yn Ynys Môn (i bob 1,000 o bobl)**




## Asesiad Effaith Ieithyddol

Mae gan amddifadedd cymdeithasol gysylltiad anesboniadwy â throseddu. Fel arfer mae nodweddion ardaloedd o amddifadedd yn cynnwys cyfraddau diweithdra uchel, tai o ansawdd gwael a diffyg cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol. Mae dosbarthiad mwy cyfatebol o ddatblygiadau yn debygol o leihau amddifadedd yn Ardal y Cynllun yn gyffredinol drwy'r ddarpariaeth uniongyrchol o dai newydd, datblygiad economaidd a chyfleusterau cymunedol ac mae angen isadeiledd newydd i gynnal a gwella'r cymunedau a fydd yn helpu i leihau troseddu, ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r ofn o droseddu.

Mae Polisi PS6 (Cynigion am brosiectau isadeiledd mawr) a Pholisi PS7 (Datblygiad niwclear yn Wylfa) yn hwyluso datblygiadau graddfa fawr a fydd yn arwain at fewnlifiad o weithwyr o du allan i'r ardal. Gallai hyn arwain at amlygiad o ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi'i achosi gan densiynau cymdeithasol o fewn cymunedau. Ar y llaw arall, mae maen prawf o fewn y polisi yn nodi'r angen i gynigion gynnwys mesurau priodol i hyrwyddo cydlyniad cymdeithasol a diogelwch cymunedol.

Bydd unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol hefyd yn cael ei liniaru i ryw raddau gan Bolisi Strategol PS1 (Datblygiad Cynaliadwy) sy'n hyrwyddo'n benodol safonau dylunio uchel i leihau troseddu, ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r ofn o droseddu.

## Goblygiadau i CDLl ar y Cyd (Adneuo)

- Dylai polisïau manwl a/neu ganllaw cynllunio atodol annog gostyngiad mewn cyfraddau trosedd drwy hyrwyddo egwyddorion dylunio da yn yr holl ddatblygiadau yn cynnwys strydoedd diogel sy'n gwella diogelwch cymunedau.

## 8. A yw'r strategaeth yn debygol o gael effaith andwyol ar fusnesau lleol?

a) Posibilrwydd o arwain at fusnesau lleol – iaith Gymraeg – yn cau o ganlyniad i:
- Ostyngiad yn y boblogaeth leol yn gyffredinol?
- Cynnydd mewn preswylwyr di-gymraeg?
- Cynnydd mewn cystadleuaeth niweidiol / cynorthwyol?

### Cefndir

Gall datblygiad newydd anaddas neu ddiffyg cyfleoedd busnes addas fod â'r potensial i gael effaith andwyol ar fusnesau lleol presennol drwy e.e. leihau cyfleoedd / sail i ehangu, lleihau sail cwsmeriaid a gallai hyn arwain at groestoriad o'r boblogaeth yn methu â chael mynediad at nwyddau neu wasanaethau. Yna efallai y bydd siaradwyr Cymraeg yn allfudo er mwyn chwilio am fwy o amrywiaeth o nwyddau a gwasanaethau.

### Dadansoddiad Gwaelodlin

Fel y gwelwch o'r tabl isod, yn Ynys Môn, mae'r gyfran o fusnesau yn y diwydiannau sy'n rhai amaeth, coedwigaeth a physgota ac adeiladu yn sylweddol uwch nac yng Nghymru'n gyffredinol, ac yng Ngwynedd mae cyfran y diwydiannau sydd yn y gwasanaethau amaeth, coedwigaeth a physgota; a llety a bwyd yn sylweddol uwch nac yng Nghymru'n gyffredinol.

**Busnesau yn ôl Diwydiant**

| % o'r holl unedau busnes lleol | Ynys Môn | Gwynedd | Cymru |
|---|---|---|---|
| Amaeth, Coedwigaeth a Physgota | 21.1 | 19.7 | 12.4 |
| Cynhyrchiant | 5.0 | 5.0 | 6.0 |
| Adeiladu | 11.5 | 9.8 | 10.5 |
| Crefftau Modur | 3.0 | 2.6 | 3.4 |
| Cyfanwerthu | 3.4 | 3.0 | 3.9 |
| Man werthu | 11.5 | 12.6 | 12.1 |
| Trafnidiaeth a Storio | 3.4 | 2.7 | 3.5 |
| Llety a Gwasanaethau Bwyd | 8.7 | 10.9 | 8.1 |
| Gwybodaeth a Chyfathrebu | 1.8 | 2.9 | 3.3 |
| Cyllid ac Yswiriant | 1.2 | 1.4 | 2.0 |
| Eiddo | 1.9 | 1.7 | 2.5 |
| Proffesiynol, Gwyddonol a Thechnegol | 6.0 | 5.4 | 8.4 |
| Gwasanaethau Gweinyddu a Chefnogi Busnes | 6.0 | 5.2 | 6.6 |
| Gweinyddu ac Amddiffyn y Cyhoedd | 1.8 | 1.8 | 1.4 |
| Addysg | 3.0 | 3.2 | 2.9 |
| Iechyd | 5.1 | 5.4 | 6.4 |
| Y Celfyddydau, | 5.7 | 6.7 | 6.7 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Adloniant, Hamdden a Gwasanaethau Eraill | | | |

**Busnesau yn ôl eu Maint**




Ffynhonnell: Infobase (Mawrth, 2012)

## Asesiad Effaith Ieithyddol

Bydd yr union effaith ar fusnesau lleol yn dibynnu ar raddfa, natur a lleoliad datblygiadau newydd mewn perthynas â busnesau sy'n bodoli yn yr ardal. Mae'r Strategaeth a Ffafrir sydd ar fin ei chyhoeddi yn hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth mewn aneddiadau o fewn ardaloedd trefol a gwledig a allai gyfrannu at ddatblygiad economaidd amrywiol. Mae'r strategaeth economaidd sydd wedi'i chynnwys yn y Strategaeth a Ffafrir sydd ar fin ei chyhoeddi yn amlygu'r angen i gynyddu allbwn economaidd o amrywiaeth o sectorau, gan gynyddu'r nifer o swyddi, a darparu hefyd ar gyfer ffurfio busnesau newydd. Mae Polisi PS8 (Darparu cyfle i economi ffyniannus) yn arbennig yn cefnogi datblygiad economaidd ar draws Ardal y Cynllun yn ogystal â darparu cyfleodd addysg a hyfforddi.

## Goblygiadau i CDLl ar y Cyd (Adneuo)

Dylai polisïau manwl yn y Cynllun Adneuo:

- sicrhau fod yna bolisïau priodol i gefnogi busnesau presennol a chreu cyfleoedd i fusnesau lleol yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.
- hwyluso datblygiad economaidd lleol ar raddfa fechan ar draws Ardal y Cynllun.

**9. A yw'r strategaeth yn debygol o gael effaith andwyol ar swyddi lleol?**

a) Creu swyddi ar gyfer y boblogaeth leol – sy'n siarad Cymraeg (efallai yn rhinwedd bod pobl leol sy'n siarad Cymraeg â'r sgiliau cywir)?

b) Bygwth swyddi'r boblogaeth leol - sy'n siarad Cymraeg (efallai drwy achosi busnesau lleol i gau).

**Cefndir**

Gall datblygiad newydd ddylanwadu ar nifer, math ac ansawdd y swyddi sydd ar gael yn y farchnad lafur lleol, a allai yn ei dro ddylanwadu ar gyfraddau allfudo/ mewnfudo.

**Dadansoddiad Gwaelodlin**

Amcangyfrifir bod gan Wynedd ac Ynys Môn gyfraddau gweithgarwch economaidd uwch na Chymru ar y cyfan gyda chyfraddau cyflogaeth uwch a chyfraddau diweithdra is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Ym mis Mehefin 2011, roedd 74% o'r boblogaeth oed gweithio yn y ddau awdurdod lleol yn economaidd weithredol o gymharu â 72.8% yng Nghymru.

**Gweithgarwch Economaidd yng Ngwynedd, Môn a Chymru (Chwarter Mehefin 2010)**

| | Ynys Môn | Gwynedd | Cymru |
|---|---|---|---|
| **% y bobl o oed gweithio sy'n gyflogai** | 58.6 | 54.8 | 58.0 |
| **% y bobl o oed gweithio sy'n gyflogedig** | 69.7 | 69.5 | 66.8 |
| **% y bobl o oed gweithio sy'n hunangyflogedig** | 10.2 | 13.4 | 8.2 |
| **% y bobl o oed gweithio sy'n economaidd weithredol** | 73.7 | 73.6 | 72.8 |
| **% y bobl o oed gweithio sy'n ddi-waith** | 5.5 | 5.6 | 8.3 |
| **% y bobl o oed gweithio sy'n economaidd anweithredol – eisiau swydd** | 5.2 | 4.0 | 6.6 |
| **% y bobl o oed gweithio sy'n economaidd anweithredol – ddim eisiau swydd** | 21.1 | 22.4 | 20.6 |


Fodd bynnag, mae gweithgarwch economaidd yn amrywio o fewn ardal y CDLl ar y Cyd gyda chyfraddau uwch o amgylch Ardal y Fenai o gymharu ag ardaloedd yng ngogledd a gorllewin Ynys Môn a phocedi o gyfraddau economaidd isel yn wardiau Peblilg (Caernarfon) a Marchog (Bangor) er enghraifft.[26]

**Lwfans Ceisio Gwaith (Ionawr 2011)**


| | Ynys Môn | Gwynedd | Cymru |
|---|---|---|---|
| **Nifer y bobl o oed gweithio sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith** | 1,899 | 2,506 | 75,163 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| % y bobl o oed gweithio sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith | 4.6 | 3.4 | 4 |
| Nifer y bobl 17-24 mlwydd oed sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith | 565 | 780 | 24,805 |
| % y bobl 17-24 mlwydd oed sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith | 29.8 | 31.1 | 33 |

**Hawlwyr Lwfans Ceisio Gwaith (canran)**




**Hawlwyr Lwfans Ceisio Gwaith (canran)**




Yn gyffredinol, mae cyfradd y nifer sy'n hawlio wedi bod yn is yng Ngwynedd nac yng Nghymru ers tua 2009. Ym mis Ionawr 2011, cyfrifwyd bod 2,506 o bobl o oed gweithio yng Ngwynedd yn ddi-waith. Roedd hyn gyfystyr â 3.4% o'r boblogaeth o oed gweithio, tra bod y canran yng Nghymru yn 4%. Mae diweithdra yn amrywio'n eithafol rhwng dynion a merched, gyda 56% yn fwy o ddynion yn ddi-waith o gymharu â merched yn ystod mis Ionawr 2009. Mae diweithdra felly'n amrywio ar draws Gwynedd. Mae'r tabl isod yn dangos yr amrywiadau o fewn y Sir.

**Diweithdra ymysg hawlwyr yn y wardiau (Ion 2011)**

| % y boblogaeth o oed gweithio amcangyfrifedig | Hawlwyr di-waith |
|---|---|
| Uchaf | Peblig (8.2) |
| Ail Uchaf | Marchog (7.3) |
| Trydydd Uchaf | Talysarn |
| Trydydd Isaf | Tudweiliog (1.0) |
| Ail isaf | Llanuwchllyn (1.0) |

Yn gyffredinol, mae cyfradd y nifer sy'n hawlio wedi bod yn uwch ym Môn nac yng Nghymru gyfan ers tua 2009. Ym mis Ionawr 2011, cyfrifwyd bod 899 o bobl o oed gweithio ym Môn yn ddi-waith. Roedd hyn gyfystyr â 4.6% o'r boblogaeth oed gweithio (y chweched uchaf yng Nghymru) tra bod y canran yng Nghymru yn 4%. Mae diweithdra'n amrywio ar draws Ynys Môn. Dengys y tabl isod rai o'r amrywiadau o fewn y Sir.

**Diweithdra ymysg hawlwyr yn y wardiau (Ion 2011)[i]**

| Hawlwyr di-waith | % y boblogaeth o oed gweithio amcangyfrifedig |
|---|---|
| Uchaf | Tref Caergybi (12.8) |
| Ail Uchaf | Morawelon (12.3) |
| Trydydd Uchaf | Porthyfelin (9.4) |
| Trydydd Isaf | Cefni (1.8) |
| Ail isaf | Llangoed (1.6) |
| Isaf | Braint (1.6) |

**Asesiad Effaith Ieithyddol**

Nid yw'r Strategaeth a Ffafrir sydd ar fin ei chyhoeddi yn debygol o gael effaith andwyol ar swyddi lleol yn Ardal y Cynllun. Mae'r strategaeth economaidd sydd wedi'i chynnwys yn y Strategaeth a Ffafrir sydd ar fin ei chyhoeddi yn amlygu'r angen i gynyddu allbwn economaidd gan amrywiaeth o sectorau, gan gynyddu'r nifer o swyddi, a darparu hefyd ar gyfer ffurfio busnesau newydd a ddylai yn ei dro gynorthwyo i gadw gafael ar weithlu sy'n siarad Cymraeg a denu cyn drigolion oed gweithio i ddychwelyd i'r ardal.

Gan fod yr opsiwn gofodol a ffafrir yn hwyluso dosbarthiad mwy cyfatebol o ddatblygiadau, bydd yn caniatáu datblygiad economaidd y prif ganolfannau yn ogystal â'r aneddiadau mwy gwledig. Bydd hyn yn arwain at ddarparu cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer amrediad daearyddol eang o'r boblogaeth ac yn cynorthwyo i

| |
|---|
| wella'r gwahaniaethau rhwng grwpiau incwm. Mae'r Strategaeth yn diogelu safleoedd ac yn dynodi ardaloedd cyflogaeth penodol yn bennaf oddi mewn i'r Ganolfan Isranbarthol a'r canolfannau Gwasanaeth Trefol, gan ddyrannu rhai ardaloedd oddi mewn i'r Canolfannau Gwasanaeth Gwledig. Cefnogir cyfleoedd cyflogaeth priodol ar raddfa fechan yn y Pentrefi, y clystyrau a chefn gwlad hefyd, ac o'u hamgylch.<br><br>Mae'r Strategaeth hefyd yn hwyluso amrywiaeth o fentrau i gael sgiliau uwch, yn cynnwys hyrwyddo prentisiaethau, cadw mwy o raddedigion yn lleol o brifysgolion yr ardal a negodi cytundebau gyda datblygwyr i ddarparu hyfforddiant i'r gweithlu.<br><br>Mae polisi strategol PS8 (Darparu cyfle i economi ffyniannus) yn cefnogi datblygiad economaidd ar draws Ardal y Cynllun yn uniongyrchol yn ogystal â darparu cyfleoedd addysg a hyfforddi, tra bo Polisi PS9 (Economi Ymwelwyr) hefyd yn cefnogi datblygiadau twristiaeth a ddylai hefyd fod o fudd i gymunedau lleol a chefnogi'r economi leol. Mae Polisi PS10 (Canol Trefi a Manwerthu) yn diogelu siopau a gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig yn erbyn eu colli'n ddianghenraid, a chefnogir cynigion ar gyfer gwasanaethau cymunedol amlbwrpas. Bydd Polisi PS7 (Datblygiad Niwclear yn Wylfa) yn hwyluso'r ddarpariaeth o gyfleon cyflogaeth ar gyfer cymunedau lleol yn y tymor byr a'r tymor hir.<br><br>Gallai cynnydd yn y boblogaeth breswyl olygu y bydd yna ragor o alw am siopau a gwasanaethau masnachol, gan greu economi leol hyfyw. Fodd bynnag, bydd yr union effaith ar gyflogaeth yn dibynnu ar leoliad a lefel y buddsoddiad ddaw i mewn i'r ardal. |
| **Goblygiadau i CDLl ar y Cyd (Adneuo)** |
| Dylai polisïau manwl yn y Cynllun Adneuo:<br><br>• sicrhau fod yna bolisïau priodol i gefnogi busnesau presennol a chreu cyfleoedd i fusnesau lleol yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.<br><br>• hwyluso datblygiad economaidd lleol ar raddfa fechan ar draws Ardal y Cynllun. |

| 10. Ydy'r strategaeth yn debygol o arwain at fwy o amrywiaeth economaidd? |
|---|
| a) Posibilrwydd o arwain at fwy o swyddi gwahanol ar gyfer y boblogaeth leol – sy'n siarad Cymraeg o ganlyniad i arallgyfeirio economaidd? |
| b) Arwain at fwy o bobl di-Gymraeg yn mewnfudo? |

## Cefndir

Efallai bydd datblygiad newydd yn creu mwy o cyfleoedd cyflogaeth sydd angen sgiliau penodol: e.e. efallai fydd datblygiad hamdden / twristiaeth yn seiliedig ar ddiwydiannau diwylliannol angen mwy o ddefnydd o'r iaith fel sgil y farchnad lafur.

## Dadansoddiad Gwaelodlin

*Math y gyflogaeth*

Mae rhai diwydiannau'n fwy cyffredin nac eraill ym Môn. Yn 2007, gweinyddu'r cyhoedd, addysg ac iechyd oedd cyflogwyr unigol mwyaf pobl Môn (32.9%). Yn ail i hyn oedd y diwydiant dosbarthu, gwestai a bwytai (25.4%), sydd hefyd yn adlewyrchu'r patrwm dros Gymru gyfan.[ii]

**Sectorau Diwydiant yn Ynys Môn ac yng Nghymru (2008)**


| Diwydiant | Ynys Môn | | Cymru | |
|---|---|---|---|---|
| | Rhif | % | Rhif | % |
| **Amaeth a physgota** | Amh. | Amh. | 18,300 | 1.5 |
| **Ynni a dŵr** | Amh. | Amh. | 6,400 | 0.5 |
| **Gweithgynhyrchu** | 2,800 | 14.9 | 161,500 | 13.7 |
| **Adeiladu** | 1,200 | 6.5 | 61,000 | 5.2 |
| **Dosbarthu, gwestai a bwytai** | 4,800 | 25.4 | 272,500 | 23.0 |
| **Trafnidiaeth a chysylltiadau** | 1,300 | 6.9 | 50,600 | 4.3 |
| **Bancio, cyllid ac yswiriant** | 1,900 | 9.9 | 166,500 | 14.1 |
| **Gweinyddu'r cyhoedd, addysg ac iechyd** | 5,400 | 28.3 | 389,600 | 32.9 |
| **Gwasanaethau eraill** | 800 | 4.3 | 56,600 | 4.8 |

Mae perfformiad y gwahanol ddiwydiannau yng nghyswllt y gwerth GVA wedi amrywio'n helaeth rhwng 1996 a 2008, a roddir fel y % o'r holl ddiwydiannau:

- Amaeth, hela, coedwigaeth a physgota wedi **gostwng** 74.1%
- Cynhyrchiant wedi **cynyddu** 36.3%

- Dosbarthu, trafnidiaeth a chysylltiadau wedi **cynyddu** 158.1%
- Gwasanaethau busnes a chyllid wedi **cynyddu** 129.4%
- Gweinyddu'r cyhoedd, addysg, iechyd a gwasanaethau eraill wedi **cynyddu** 76.8%

**Gwerth Ychwanegol Crynswth yn ôl Diwydiant, 1996- 2008**




Dengys y tabl isod, yn seiliedig ar ddata Cyfrifiad 2001, y prif sectorau diwydiant yng ngwahanol rannau o Fôn.

| | Canolfan y Cynllun Gofodol | Llangefni | Caergybi | 'Ardal y pontydd' | Tu allan i'r Ganolfan |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanwerthu, man werthu ac atgyweirio** | 15.4% | 17.3% | 15.3% | 14.4% | 14.6% |
| **Addysg** | 13.1% | - | - | 16.4% | |
| **Iechyd a Gwaith Cymdeithasol** | 15.6% | 13.1% | - | 16.7% | 12.3% |
| **Gweithgynhyrchu** | - | 18.8% | 21.8% | - | 14.6% |
| **Trafnidiaeth, storio a chysylltiadau** | - | - | 13.3% | - | - |

Ymddengys o'r uchod bod y sectorau cyfanwerthu a man werthu (gan gynnwys atgyweirio ceir ac eraill) yn gryf ym mhob rhan. Mae gan ardal Canolfan Menai sector gwasanaethau cryf, a hynny yn bennaf ym meysydd addysg, iechyd a gofal cymdeithasol, sy'n adlewyrchu pa mor agos yw'r ardal at Fangor a'r ddibyniaeth ar wasanaethau ysbyty, prifysgol a choleg. Ar y llaw arall, mae strwythur diwydiannol

mwy traddodiadol i Gaergybi, ble mae gweithgynhyrchu a thrafnidiaeth, storio a chysylltiadau'n gryfach. Mae'n bosib bod gweithgynhyrchu yn cyrraedd cyfnod eithaf bregus o ansicrwydd a chystadleuaeth ryngwladol gref. Fodd bynnag, mae trafnidiaeth a chysylltiadau'n sectorau twf cryf, all ddwyn budd o'r llwybr fferi i Iwerddon. Llangefni sydd â'r gymysgedd fwyaf amrywiol o wasanaethau a gweithgynhyrchu traddodiadol.

Mae rhai diwydiannau'n fwy cyffredin yng Ngwynedd nac eraill. Yn 2008, gweinyddu'r cyhoedd, addysg ac iechyd oedd cyflogwyr unigol mwyaf pobl Gwynedd (32.9%). Yn ail i hyn oedd dosbarthu, gwestai a bwytai (23.0%), sydd hefyd yn adlewyrchu'r patrwm dros Gymru gyfan. Dros yr un cyfnod, y diwydiannau oedd yn cyflogi'r gyfran leiaf o bobl yng Ngwynedd oedd ynni a dŵr (0.5%) ac amaeth a physgota (1.5%).


**Sectorau Diwydiant yng Ngwynedd a Chymru (2008)**

| | **Gwynedd** | | **Cymru** | |
|---|---|---|---|---|
| **Diwydiant** | **Rhif** | **%** | **Rhif** | **%** |
| **Amaeth a physgota** | 300 | 0.6 | 18,300 | 1.5 |
| **Ynni a dŵr** | 600 | 1.2 | 6,400 | 0.5 |
| **Gweithgynhyrchu** | 3,700 | 7.6 | 161,500 | 13.7 |
| **Adeiladu** | 2,200 | 4.5 | 61,000 | 5.2 |
| **Dosbarthu, gwestai a bwytai** | 15,000 | 31.2 | 272,500 | 23.0 |
| **Trafnidiaeth a chysylltiadau** | 1,700 | 3.6 | 50,600 | 4.3 |
| **Bancio, cyllid ac yswiriant** | 4,100 | 8.6 | 166,500 | 14.1 |
| **Gweinyddu'r cyhoedd, addysg ac iechyd** | 17,900 | 37.3 | 389,600 | 32.9 |
| **Gwasanaethau eraill** | 2,600 | 5.3 | 56,600 | 4.8 |

Mae perfformiad y gwahanol ddiwydiannau yng nghyswllt y gwerth GVA wedi amrywio'n helaeth rhwng 1996 a 2008, a roddir fel y % o'r holl ddiwydiannau:

- Amaeth, hela, coedwigaeth a physgota wedi **gostwng** 78.4%
- Cynhyrchiant wedi **gostwng** 19%
- Dosbarthu, trafnidiaeth a chysylltiadau wedi **cynyddu** 68.2%
- Gwasanaethau busnes a chyllid wedi **cynyddu** 64.8%
- Gweinyddu'r cyhoedd, addysg, iechyd a gwasanaethau eraill wedi **cynyddu** 110%

## Gwerth Ychwanegol Crynswth yn ôl Diwydiant, 1996- 2008




## Busnesau yn ôl Diwydiant

| % o'r holl unedau busnes lleol | Ynys Môn | Gwynedd | Cymru |
|---|---|---|---|
| Amaeth, Coedwigaeth a Physgota | 21.1 | 19.7 | 12.4 |
| Cynhyrchiant | 5.0 | 5.0 | 6.0 |
| Adeiladu | 11.5 | 9.8 | 10.5 |
| Crefftau Modur | 3.0 | 2.6 | 3.4 |
| Cyfanwerthu | 3.4 | 3.0 | 3.9 |
| Man werthu | 11.5 | 12.6 | 12.1 |
| Trafnidiaeth a Storio | 3.4 | 2.7 | 3.5 |
| Llety a Gwasanaethau Bwyd | 8.7 | 10.9 | 8.1 |
| Gwybodaeth a Chyfathrebu | 1.8 | 2.9 | 3.3 |
| Cyllid ac Yswiriant | 1.2 | 1.4 | 2.0 |
| Eiddo | 1.9 | 1.7 | 2.5 |
| Proffesiynol, Gwyddonol a Thechnegol | 6.0 | 5.4 | 8.4 |
| Gwasanaethau Gweinyddu a Chefnogi Busnes | 6.0 | 5.2 | 6.6 |
| Gweinyddu ac | 1.8 | 1.8 | 1.4 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Amddiffyn y Cyhoedd | | | |
| Addysg | 3.0 | 3.2 | 2.9 |
| Iechyd | 5.1 | 5.4 | 6.4 |
| Y Celfyddydau, Adloniant, Hamdden a Gwasanaethau Eraill | 5.7 | 6.7 | 6.7 |

Fel y gwelir yn y tabl, mae cyfran y diwydiannau sy yn y gwasanaethau amaeth, coedwigaeth a physgota; a llety a bwyd yn sylweddol uwch nac yng Nghymru'n gyffredinol.

Mae strwythur economi Ynys Môn yn ffafrio rhai mathau o swyddi fwy na'i gilydd. Rhwng mis Gorffennaf 2009-2010, y tair galwedigaeth fwyaf cyffredin ym Môn oedd:

- Galwedigaethau crefftau medrus – gwaith llaw yn gyffredinol. Cysylltir y crefftau hyn â dynion yn bennaf, a gwelir gwahaniaeth o +2.5% o gymharu â'r ffigwr i Gymru.
- Galwedigaethau proffesiynol a thechnegol cysylltiol – mae gwahaniaeth o +2.0% yma rhwng Môn a Chymru.
- Rheolwyr ac uwch swyddogion – is na'r cyfartaledd cenedlaethol, gyda gwahaniaeth o -2.2% rhwng ffigurau Môn a Chymru.

Ym mis Gorffennaf 2009-2010, y tair galwedigaeth fwyaf cyffredin yng Ngwynedd oedd:

- Galwedigaethau crefftau medrus – gwaith llaw yn gyffredinol. Cysylltir y crefftau hyn â dynion yn bennaf, a gwelir gwahaniaeth o +5% o gymharu â'r ffigwr i Gymru.
- Galwedigaethau elfennol – galwedigaethau lle nad oes angen sgiliau megis galwedigaethau ffatri a storio, a galwedigaethau elfennol a gwasanaeth megis ffeilio a glanhau. Mae gwahaniaeth yma o +1.0% rhwng Gwynedd a Chymru.
- Rheolwyr ac uwch swyddogion – tebyg i Gymru gyfan, dim ond gwahaniaeth o +1% rhwng ffigurau Gwynedd a Chymru.

**Asesiad Effaith Ieithyddol**

Gan fod yr opsiwn gofodol a ffafrir yn hwyluso dosbarthiad mwy cyfatebol o ddatblygiad, byddai'n caniatáu datblygiad economaidd y prif ganolfannau yn ogystal â'r aneddiadau mwy gwledig. Bydd hyn yn arwain at ddarparu cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer amrediad daearyddol eang o'r boblogaeth ac yn cynorthwyo i wella'r gwahaniaethau rhwng grwpiau incwm.

Mae'r strategaeth economaidd sydd wedi'i chynnwys yn y Strategaeth a Ffafrir sydd ar fin ei chyhoeddi yn hyrwyddo datblygiad economaidd amrywiol yn Ardal y Cynllun ac yn amlygu'r angen i gynyddu allbwn economaidd o amrywiaeth o sectorau gan

| |
|---|
| gynyddu'r nifer o swyddi. Mae'r Strategaeth yn dynodi tir cyflogaeth i gyflawni'r amcanion hyn.<br><br>Mae'r ffigwr ar gyfer darpariaeth o dir cyflogaeth ar safleoedd diwydiannol a busnes yn seiliedig ar gyfrifiadau a gynhwyswyd yn Adolygiad Tir Cyflogaeth Ynys Môn a Gwynedd (2011). Mae ffigyrau darpariaeth tir cyflogaeth yn fwy na'r hyn sy'n debygol o gael ei adeiladu a bydd hyn yn rhoi dewis i ddatblygwyr a deiliaid a ddylai helpu hwyluso patrwm amrywiol o ddatblygiad economaidd.<br><br>Fodd bynnag, gallai cyfleoedd cyflogaeth ddenu gweithwyr di-gymraeg i'r ardal. Ar y llaw arall, diffyg cyfleodd economaidd yw un o'r prif resymau pam fod pobl ifanc yn allfudo, felly bydd y ddarpariaeth o gyfleoedd newydd yn helpu i gadw'r boblogaeth ifanc yn eu cymunedau. Mae polisi PS14 (Yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru) yn ceisio rhwystro unrhyw niwed arwyddocaol i gymeriad a chydbwysedd ieithyddol cymuned a achosir gan ddatblygiad anaddas ac mae angen cyfraniad ariannol drwy gytundeb Adran 106 mewn amgylchiadau priodol.<br><br>Gweler hefyd meini prawf naw ac wyth uchod. |
| **Goblygiadau i CDLl ar y Cyd Adneuo** |
| Dylai polisïau manwl yn y Cynllun:<br><br>• gynnwys polisi priodol ar gyfer hyrwyddo cyfleoedd priodol mewn ardaloedd gwledig, ac ar gyfer arallgyfeirio amaethyddol.<br><br>• hyrwyddo datblygiad o amrywiaeth o fentrau sy'n addas i ardaloedd penodol. |

## 11. A yw'r strategaeth yn debygol o gael effaith ar lefelau tâl / cyflog lleol?

a) Posibilrwydd o gynyddu / ostwng lefelau tâl / cyflog o ganlyniad i gynnydd yn y gweithlu / cystadleuaeth busnes?

### Cefndir

Efallai bydd cystadleuaeth o fewn sectorau cyflogaeth yn arwain at benderfyniadau gan y farchnad lafur ar ble byddent yn cychwyn cyflogaeth a chanfyddiad o ansawdd cyfleoedd cyflogaeth. Mewn economi cystadleuol byd-eang gall cymunedau sy'n dibynnu ar gyflogaeth allweddol fod yn agored i newidiadau andwyol mewn cyflogaeth a chystadleuaeth busnes.

### Dadansoddiad Gwaelodlin

Defnyddir *CACI Paycheck* i gyfrifo enillion.  Gweler isod ddata incwm a gasglwyd o amrywiol ffynonellau masnachol, a chaiff y data ei ddiweddaru'n gyson wrth i wybodaeth bellach ddod i law.

£24,350 oedd y canolrif incwm ym Môn yn 2009, oedd yn is na chanolrif incwm Cymru gyfan (£24,750). Daeth Môn yn 11eg allan o'r 22 Awdurdod Unedol yng Nghymru yng nghyswllt y mesur hwn.

| Enillion yn 2009 | Canolrif Incwm (£) | % y cartrefi sy'n ennill dan 60% o Ganolrif Enillion y DU |
|---|---|---|
| Gwynedd | £23,050 | 34.5% |
| Ynys Môn | £24,350 | 32.1% |
| Conwy | £24950 | 30.9% |
| Sir Ddinbych | £24,700 | 31.6% |
| Sir y Fflint | £28,300 | 26.4% |
| Wrecsam | £25,850 | 30% |
| Cymru | £24,750 | 28% |

Daeth y canlyniadau allweddol a ganlyn i'r amlwg wedi dadansoddiad pellach o Ddata *CACI Paycheck* yn 2009:

- Roedd incwm 61.5% o gartrefi'r sir yn llai na £30,000. Roedd 13.5% o gartrefi Môn yn ennill incwm o lai na £10k.
- Roedd 38.5% o gartrefi Gwynedd yn ennill incwm o fwy na £30,000.
- Y ward â'r canolrif incwm cartref uchaf oedd Cwm Cadnant (£37,100) a'r ward oedd â'r cymedr incwm cartref isaf oedd Morawelon (£16,450).

Mae enillion cyfartalog cartrefi yn Ynys Môn a Gwynedd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.  Yn 2009, y canolrif incwm oedd £23,050 a £24,350 yng Ngwynedd ac Ynys Môn yn y drefn honno, o gymharu â £25,750 yng Nghymru.  Ceir amrywiaethau sylweddol mewn enillion cartrefi o fewn ardal y CDLl ar y cyd. Yn Ynys Môn, Morawelon sydd â'r incwm y cartref cymedrig isaf (£16,450) ac yng Ngwynedd y ward â'r incwm y cartref cymedrig isaf yw Hirael (£17,700) (*CACI Paycheck*).  Gallai

hyn adlewyrchu cyfuniad o ddiffyg cyfleoedd am waith â chyflog uwch; diffyg llafur â sgiliau yn lleol ac, o bosib, bod canran o'r boblogaeth nad ydynt yn medru cymryd rhan mewn swyddi â sgiliau uwch yn yr ardaloedd hyn.

£23,050 oedd y canolrif incwm yng Ngwynedd yn 2009, oedd yn is na chanolrif incwm gogledd Cymru a Chymru gyfan (£24,750). Daeth Gwynedd yn 17eg allan o'r 22 Awdurdod Unedol yng Nghymru yng nghyswllt y mesur hwn.

**Enillion yn 2009**

| | Canolrif Incwm (£) | % y cartrefi sy'n ennill dan 60% o Ganolrif Enillion y DU |
|---|---|---|
| Gwynedd | £23,050 | 34.5% |
| Ynys Môn | £24,350 | 32.1% |
| Conwy | £24,950 | 30.9% |
| Sir Ddinbych | £24,700 | 31.6% |
| Sir y Fflint | £28,300 | 26.4% |
| Wrecsam | £25,850 | 30% |
| Cymru | £24,750 | 28% |

*Daeth y canlyniadau allweddol a ganlyn i'r amlwg wedi dadansoddiad pellach o Ddata CACI Paycheck yn 2009:*

- Roedd incwm y cartref yn 64.8% o gartrefi'r sir yn llai na £30,000. Roedd gan 14.6% o gartrefi Gwynedd incwm cartref o lai na £10,000.
- Roedd incwm y cartref yn 35.2% o gartrefi Gwynedd yn fwy na £30,000.
- Y ward oedd â'r cymedr incwm cartref uchaf oedd ward (enw ar goll) (£33,947) a'r ward oedd â'r cymedr incwm cartref isaf oedd ward Marchog (£22,773).
- Y ward oedd â'r canolrif incwm cartref uchaf oedd Cwm-y-glo (£31,800), a'r ward oedd â'r canolrif incwm cartref isaf oedd Hirael (£17,700).

Mae'r Strategaeth yn hwyluso amrywiaeth o gyfleusterau i gael sgiliau uwch, yn cynnwys hyrwyddo prentisiaethau, cadw mwy o raddedigion yn lleol o brifysgolion yr ardal a negodi cytundebau gyda datblygwyr i ddarparu hyfforddiant i'r gweithlu.

**Asesiad Effaith Ieithyddol**

Nid yw'r Strategaeth a Ffafrir sydd ar fin ei chyhoeddi yn debygol o gael effaith andwyol ar lefelau cyflog yn Ardal y Cynllun. Mae'r strategaeth economaidd sydd wedi'i chynnwys yn y Strategaeth a Ffafrir sydd ar fin ei chyhoeddi yn amlygu'r angen i gynyddu allbwn economaidd o amrywiaeth o sectorau, gan gynyddu'r nifer o swyddi, a darparu hefyd ar gyfer ffurfio busnesau newydd ac yn ei dro dylai gynorthwyo i gadw gafael ar weithlu sy'n siarad Cymraeg.

Gweler hefyd meini prawf wyth, naw a deg uchod.

**Goblygiadau i CDLl ar y Cyd Adneuo**

Dylai polisïau manwl yn y Cynllun Adneuo:

- gynnwys polisi priodol ar gyfer hyrwyddo cyfleoedd priodol mewn ardaloedd gwledig, ac ar gyfer arallgyfeirio amaethyddol.
- hyrwyddo datblygiad o amrywiaeth o fentrau sy'n addas i ardaloedd penodol.

**12. A yw'r strategaeth yn debygol o effeithio ar gostau cyfartalog tai?**

a) Gorfodi siaradwyr Cymraeg lleol i adael y gymuned?

b) Y posibilrwydd o arwain at gynnydd mewn digartrefedd / straen tai ymhlith aelwydydd lleol o siaradwyr Cymraeg?

c) Rhwystro pobl leol sy'n siaradwyr Cymraeg rhag dychwelyd i'r ardal / gymuned?

**Cefndir**

Gall dosbarthiad gofodol datblygiad arwain naill ai at gynnydd neu ddirywiad mewn prisiau tai ac mae hyn yn debygol o effeithio ar wahanol rannau o'r gymuned yn anghyfartal. Gall hyn beri naill ai mewnfudo neu allfudo a pheri effaith penodol ar faint o ddefnydd a wneir o'r iaith o fewn cymuned.

Y lefel twf tai a ffafrir yn y Strategaeth a Ffafrir yw'r Opsiwn Twf Canolig a fydd yn golygu oddeutu 511 o unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd yn ystod oes y CDLl ar y Cyd. Mae hyn gyfystyr â chyfanswm o 7,665 o unedau tai ychwanegol erbyn 2026. Mae'r lefel twf hwn yn cynrychioli cyfradd adeiladu uwch nas gwelwyd dros y degawd diwethaf. Credir y bydd y dewis twf hwn yn diwallu anghenion pobl leol.

**Dadansoddiad Gwaelodlin**


Fel gweddill y DU, mae ardal y CDLl ar y Cyd wedi gweld cynnydd mawr iawn mewn prisiau tai dros y blynyddoedd diwethaf, er bod prisiau tai erbyn hyn yn dechrau gostwng yn araf. Fodd bynnag, mae prisiau tai yn parhau'n sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru.

Prisiau Cyfartalog Unedau Preswyl

| Cyfnod | Gwynedd | | Ynys Môn | | Cymru | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pris (£) | Cyfrif eiddo | Pris (£) | Cyfrif eiddo | Pris (£) | Cyfrif eiddo |
| Tachwedd 2002 | 89,693 | 1,965 | 94,104 | 1,177 | 95,246 | 58,401 |
| Mai 2003 | 105,908 | 1,974 | 102,087 | 1,035 | 103,338 | 52,362 |
| Tachwedd 2003 | 118,418 | 2,184 | 122,571 | 1,358 | 116,473 | 71,352 |
| Mai 2004 | 125,259 | 1,341 | 130,556 | 817 | 127,475 | 54,773 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tachwedd 2004 | 143,052 | 1,388 | 153,743 | 919 | 142,594 | 51,408 |
| Mai 2005 | 152,292 | 1,196 | 151,253 | 720 | 144,402 | 40,733 |
| Tachwedd 2005 | 158,697 | 1,517 | 165,480 | 937 | 150,966 | 49,829 |
| Mai 2006 | 163,136 | 1,339 | 163,223 | 817 | 153,869 | 46,897 |
| Tachwedd 2006 | 170,186 | 1,750 | 177,783 | 1,104 | 162,069 | 59,374 |
| Mai 2007 | 171,400 | 1,582 | 179,748 | 1,011 | 164,161 | 49,586 |
| Tachwedd 2007 | 184,460 | 1,607 | 183,750 | 1,137 | 168,129 | 52,659 |
| Mai 2008 | 176,869 | 1,182 | 183,514 | 736 | 167,527 | 38,467 |
| Tachwedd 2008 | 177,243 | 1,090 | 188,816 | 672 | 168,688 | 31,343 |
| Mai 2009 | 167,985 | 871 | 182,402 | 526 | 160,058 | 24,452 |
| Tachwedd 2009 | 167,780 | 1,276 | 175,019 | 723 | 165,127 | 32,810 |
| Mai 2010 | 172,789 | 1,196 | 180,088 | 599 | 164,399 | 30,174 |
| Tachwedd 2010 | 171,490 | 1,369 | 189,682 | 740 | 166,833 | 33,743 |
| Mai 2011 | 169,780 | 915 | 170,471 | 492 | 161,699 | 21,656 |

Ffynhonnell: Hometrack




- Bu cynnydd ym mhrisiau tai cyfartalog yng Ngwynedd yn ystod pob cyfnod a nodir hyd at fis Tachwedd 2007 (cynnydd o 105.7% ym mhris cyfartalog tŷ yng Ngwynedd rhwng mis Tachwedd 2002 a mis Tachwedd 2007). Yn dilyn hyn, gwelwyd gostyngiad clir yn y prisiau cyfartalog. Efallai bod y duedd hon yn adlewyrchiad o'r problemau economaidd a ddaeth yn amlwg ym Mhrydain yn 2008.
- Mae'r duedd hon ychydig yn wahanol ym Môn gan nad yw'r wybodaeth yn dangos unrhyw leihad amlwg ym mhrisiau cyfartalog tai (heblaw'r cyfnod rhwng mis Tachwedd 2010 a mis Mai 2011). Bu cynnydd o 98.5% mewn prisiau cyfartalog tai ym Môn rhwng mis Tachwedd 2002 a mis Tachwedd 2010 (h.y. y cyfnod sy'n dangos y prisiau tai cyfartalog uchaf yn y tabl) a 95.3% rhwng mis Tachwedd 2002 a mis Tachwedd 2007 (h.y. er mwyn cymharu â'r ffigwr a nodir ar gyfer Gwynedd).
- Mae lleihad amlwg yn y nifer o eiddo a oedd yn berthnasol eu hystyried (ar sail gwerthiannau a phrisiadau) yng Ngwynedd a Môn ar ôl mis Mai 2008. Mae hyn yn gyson â'r duedd ar draws Cymru gyfan. Tybir bod hyn yn adlewyrchu effaith y dirwasgiad ar y farchnad dai gan nad yw pobl yn fodlon / methu â fforddio gwerthu eu tai am brisiau sy'n is na'r hyn a roesant amdanynt. Golyga hyn fod llai o dai ar gael i'w gwerthu.

**Fforddiadwyedd**

| Awdurdod Lleol | Cymhareb Fforddiadwyedd | Awdurdod Lleol | Cymhareb Fforddiadwyedd |
|---|---|---|---|
| Gwynedd | 3.87 | Ynys Môn | 3.65 |

| Dewis wardiau penodol | | Cymhareb Fforddiadwyedd | Dewis wardiau penodol | Cymhareb Fforddiadwyedd |
|---|---|---|---|---|
| Wardiau â'r gymhareb fforddiadwyedd uchaf | Abersoch | 7.76 | Llanfaethlu | 5.29 |
| | Llanengan | 7.65 | Rhosneigr | 5.29 |
| | Aberdaron | 6.92 | Moelfre | 5.18 |
| | Llanbedrog | 6.13 | Biwmares | 5.07 |
| | Botwnnog | 5.87 | Bodorgan | 5.07 |
| Wardiau â'r gymhareb fforddiadwyedd isaf | Bowydd a Rhiw (Blaenau Ffestiniog) | 2.37 | Ffordd Llundain, Caergybi | 2.25 |
| | Penisarwaun | 2.42 | Llanfair-yn-neubwll | 2.47 |
| | Diffwys a Maenofferen (Blaenau Ffestiniog) | 2.65 | Porth Amlwch | 2.77 |
| | Penrhyndeudraeth | 2.71 | Maeshyfryd, Caergybi | 2.77 |
| | Ogwen | 2.93 | Porthyfelin, Caergybi | 2.77 |

Ffynhonnell: Hometrack

- Yn ystod y cyfnod a nodir, roedd prisiau canolrif tai yng Ngwynedd yn 3.87 gwaith uwch na'r incwm canolrif. Yn Ynys Môn, roedd y ffigwr hwn yn 3.65. Noder bod y ffigyrau hyn yn uwch na'r cymarebau delfrydol sy'n 2.9 ar gyfer incwm unigol a 3.5 ar gyfer incwm dau.
- Mae gwahaniaethau amlwg yn y gymhareb fforddiadwyedd mewn gwahanol wardiau yn awdurdodau cynllunio Gwynedd ac Ynys Môn.
- Yng Ngwynedd, mae'r prisiau canolrif tai yn sylweddol uwch na'r cyflog canolrif mewn rhai wardiau ym Mhen Llŷn.
- Tra bod gwerth y cymarebau fforddiadwyedd uchaf mewn wardiau yn Ynys Môn yn is na'r ffigyrau cyfatebol yng Ngwynedd, gellir gweld gwahaniaethau clir rhwng gwerth y cymarebau uchaf a'r rhai isaf.

**Yr angen blynyddol am dai fforddiadwy**

- Mae casgliadau'r Asesiad Marchnad Dai Lleol Gogledd Orllewin Cymru yn nodi angen tai fforddiadwy blynyddol o rhwng 664 uned (yn seiliedig ar

ragamcaniad aelwydydd Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2003) a 828 uned yng Ngwynedd (yn seiliedig ar ragamcaniad o aelwydydd Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2006). Noder bod y ffigyrau hyn yn seiliedig ar giplun o'r sefyllfa ym mis Rhagfyr 2009 (wedi'i gytuno gan Fwrdd Prosiect Asesiad Marchnad Dai Lleol Gogledd Orllewin Cymru).

- O ran Ynys Môn, mae casgliadau'r Asesiad Marchnad Dai Lleol Gogledd Orllewin Cymru yn nodi angen tai fforddiadwy blynyddol o rhwng 249 uned (yn seiliedig ar ragamcaniad aelwydydd Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2003) a 304 uned ( yn seiliedig ar ragamcaniad o aelwydydd Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2006). Noder unwaith eto bod y ffigyrau hyn yn seiliedig ar giplun o'r sefyllfa ym mis Rhagfyr 2009 (wedi'i gytuno gan Fwrdd Prosiect Asesiad Marchnad Dai Lleol Gogledd Orllewin Cymru).
- Seiliwyd y ffigyrau hyn ar ddosbarthu'r angen am dai fforddiadwy dros gyfnod o bum mlynedd.
- Mae gwaith ymchwil mwy diweddar wedi dosbarthu'r angen am dai fforddiadwy dros gyfnod o 15 mlynedd er mwyn bod yn gyson â chyfnod y Cynlluniau Datblygu Lleol.
- Felly, mae angen gwaith ychwanegol er mwyn sefydlu beth yw'r angen blynyddol am dai fforddiadwy. Bydd y papur pwnc hwn yn cael ei ddiweddaru ar ôl cwblhau a chytuno ar y gwaith hwn.
- Noder nad yw hwn yn ddatganiad ynglŷn â'r nifer o dai fforddiadwy fydd angen eu hadeiladu gan y gellir diwallu cyfran o'r angen drwy ddulliau amgen.

**Asesiad Effaith Ieithyddol**

Mae'n anodd penderfynu yn y cam hwn beth fydd union effaith y Strategaeth a Ffafrir sydd ar fin ei chyhoeddi ar brisiau tai yn Ardal y Cynllun. Fodd bynnag, dylai'r Strategaeth gynyddu argaeledd tai, eu fforddiadwyedd ac ystod y mathau o dai gwahanol yn ardal y Cynllun.

Mae'r strategaeth tai yn hwyluso darparu tai fforddiadwy o ddyluniad a maint addas. Yn seiliedig ar y rhagolygon twf a ffafrir o ran y gofynion tai, mae'r Strategaeth yn darparu 7,665 o aelwydydd ychwanegol yn ystod 2011-2026 yn ardal y cynllun. Mae hyn yn rhoi mwy o gyfle am gyfradd datblygu uwch sy'n realistig /y gellir ei rheoli na'r hyn a ddarparwyd yn y ddegawd ddiwethaf. Bydd cyfradd o'r tai newydd yn dai fforddiadwy, naill ai yn rai canolradd neu yn gartrefi yn y sector rhentu cymdeithasol yn seiliedig ar hyfywdra. Dylai hyn ei gwneud hi'n haws i ddarpar berchnogion tai allu prynu neu rentu tai newydd, yn enwedig preswylwyr sydd â chysylltiadau lleol.

Yn wir, mae'r Strategaeth a Ffafrir sydd ar fin ei chyhoeddi yn rhoi mwy o bwyslais ar ddarparu cyfleoedd tai sy'n diwallu anghenion y gymuned leol, yn enwedig anghenion pobl ifanc a phobl hŷn. Bydd dosbarthiad y tai ar draws Ardal y Cynllun yn rhoi mwy o ddewis a mwy o hyblygrwydd i bobl allu aros yn eu cymunedau. Yn ogystal, mae'r strategaeth yn hwyluso'r ddarpariaeth o dai a chyfleoedd economaidd mewn ardaloedd gwledig. Yn ogystal, dylai hyn gynorthwyo i gadw pobl ifanc yn y

cymunedau hyn.

Bydd y polisïau strategol a ganlyn a gynhwysir yn y Strategaeth yn cynorthwyo i hyrwyddo datblygu tai fforddiadwy sy'n diwallu gofynion y boblogaeth leol.

i) Nod Polisi PS1 (Datblygiad Cynaliadwy) yw sicrhau bod unedau tai yn diwallu anghenion y boblogaeth leol gydol eu hoes o ran ansawdd, mathau o ddaliadaeth a fforddiadwyedd.
ii) Mae Polisi PS3 (Strategaeth anheddleoedd) yn sicrhau bod graddfa'r datblygiad yn addas i faint yr anheddiad ac y cymerir i ystyriaeth y capasiti ieithyddol. Yn ychwanegol, mae'r Polisi yn nodi nas dyrennir safleoedd tai marchnad agored mewn Pentrefi a chlystyrau a dylai hyn ei gwneud hi'n haws i bobl leol brynu neu rentu cartrefi newydd.
iii) Mae Polisïau PS11 (Darpariaeth gytbwys o dai) a PS12 (Tai fforddiadwy) – yn uniongyrchol yn hwyluso nifer digonol o dai i ddiwallu anghenion cymunedau lleol o ran y math o dai a'u fforddiadwyedd. Yn ogystal, mae'n hwyluso datblygiad ystod o fathau o dai a daliadaeth sy'n diwallu anghenion pob rhan o'r boblogaeth gan gynnwys tai ar gyfer pobl hŷn. Bydd hyn yn cynorthwyo i greu cymunedau cynaliadwy a chynhwysol.
iv) Mae Polisi PS14 (Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig) hefyd yn hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn ardal y Cynllun ac yn ceisio osgoi niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd ieithyddol a grëir gan ddatblygiad amhriodol mewn cymuned.

**Goblygiadau i CDLl ar y Cyd (Adneuo)**

Dylai polisïau manwl yn y Cynllun Adneuo:

- Amlinellu'r gofynion am dai fforddiadwy angen lleol mewn datblygiadau tai newydd.
- Hwyluso datblygiadau tai addas mewn lleoliadau lle mae'r gofyn amdanynt fwyaf.
- Hyrwyddo datblygu mewn camau er mwyn sicrhau fod gwahanol ardaloedd a chymunedau yn gallu ymdopi â datblygiad heb erydu sefyllfa'r iaith.
- Ystyried goblygiadau toreth o ail gartrefi yn ardal y cynllun.
- Cynnwys mesurau rheoli daliadaeth tai newydd mewn ardaloedd penodol.

## 13. A yw'r strategaeth yn debygol o effeithio ar ysgolion lleol?

a) Bygwth / sicrhau ysgolion lleol oherwydd cynnydd / lleihad yn nifer y disgyblion?

b) Newid y cydbwysedd rhwng myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg a rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg?

### Cefndir

Gall datblygiadau arwain at wasanaethau lleol megis ysgolion yn derbyn budd o gynnydd yn y boblogaeth ieuengach tra bod diffyg datblygiad, ac yn ei dro, dim newid neu ddirywiad ac anghydbwysedd yn y proffiliau oed presennol mewn cymunedau, yn gallu bygwth hyfywdra ysgolion yn y dyfodol.

### Dadansoddiad Gwaelodlin

Mae'r ddarpariaeth ysgolion ar hyn o bryd yn Ynys Môn a Gwynedd fel a ganlyn:

- 102 ysgol gynradd, 14 ysgol uwchradd a 3 ysgol anghenion arbennig yng Ngwynedd.
- 49 ysgol gynradd, 5 ysgol uwchradd ac un ysgol anghenion arbennig yn Ynys Môn.

Bydd lleoliad a chapasiti'r ysgolion yn ffactor wrth benderfynu lle y cyfeirir datblygiad. Dylai ysgolion fod â chapasiti digonol i gefnogi unrhyw gynnydd mewn poblogaeth a grëir gan ddatblygiad preswyl. Mae'r Polisi Iaith Gymraeg ar gyfer ysgolion yn Ardal y Cynllun gyda'r nod o sicrhau fod yr holl ddisgyblion yn y sir â dwyieithrwydd cytbwys sy'n berthnasol i'w hoedran er mwyn sicrhau y byddant yn aelodau llawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.

Er mai nod y Polisi yw dwyieithrwydd, rhoddir pwyslais ar y Gymraeg yn ystod y blynyddoedd cynnar (hyd at ddiwedd CA1) er mwyn gosod seiliau cadarn i ddatblygiad pellach. Yn ymarferol, golyga hyn bod y mwyafrif o ysgolion yn cychwyn cyflwyno Saesneg yn ffurfiol ar ddiwedd CA1. Yn y cyfnodau allweddol eraill, disgwylir i ysgolion baratoi ar gyfer datblygu gafael y disgyblion ar yr iaith Gymraeg. Golyga hyn y dysgir y Gymraeg fel yr iaith gyntaf yn ysgolion cynradd y Sir. Gallai hyn arwain at rieni di-gymraeg ddysgu'r iaith neu ei gwerthfawrogi a thrwy hynny gryfhau statws yr iaith mewn cymunedau.

### Asesiad Effaith Ieithyddol

Mae'n anodd yn ystod y cyfnod hwn i benderfynu beth fydd effaith debygol y Strategaeth a Ffafrir sydd ar fin ei chyhoeddi ar ysgolion lleol gan y bydd yr effaith yn dibynnu ar raddfa a lleoliad datblygiadau newydd.

Gallai datblygu tai newydd ychwanegol mewn dalgylchoedd ysgolion roi pwysau gormodol ac annerbyniol ar eu gallu i weithredu'n effeithiol oherwydd y plant ychwanegol fydd angen eu cefnogi. Gallai cydweithio a datblygu mewn camau

liniaru'r effeithiau. Gall ymrwymiadau cynllunio, sy'n sicrhau cyfraniadau gan ddatblygwyr tuag at ysgolion lleol fod yn fodd o ddatrys hyn. Mae Polisi PS5 (Yr Isadeiledd a chyfraniadau at gan ddatblygwyr) yn cyfeirio'n uniongyrchol i'r gofyn am amodau cynllunio neu ymrwymiadau fel rhan o ddatblygiadau mewn achosion penodol.

Yn ogystal, gall datblygiad newydd arwain at fewnlifiad o bobl nad ydynt yn siaradwyr Cymraeg a allai darfu ar gydbwysedd ieithyddol ysgolion. Mae datblygiadau sy'n fwy tebygol o gael effaith annerbyniol ar yr iaith fel arfer yn rai sy'n sylweddol eu maint o ran strwythur y gymuned sy'n bodoli / gallu cymuned i ymgorffori datblygiadau tai newydd / y math o farchnad dai sy'n weithredol mewn ardal, h.y. mae rhai ardaloedd marchnad dai yn fwy tebygol o fod yn ddeniadol i breswylwyr sydd eisoes yn byw yn ardal y Cynllun yn hytrach na denu perchnogion ail gartrefi / tai haf.

Fodd bynnag, fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Strategaeth a Ffafrir sydd ar fin ei chyhoeddi, ystyriwyd cyfleusterau allweddol mewn aneddiadau, gan gynnwys ysgolion lleol, a'u capasiti. Yn ogystal, cafodd aneddiadau eu categorïo mewn hierarchaeth sy'n cymryd i ystyriaeth presenoldeb ysgolion a'u gallu i ymgorffori datblygiadau newydd o ran eu cymeriad cymdeithasol. Hefyd, mae Polisi PS14 (Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig) yn hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn ardal y Cynllun yn uniongyrchol ac yn ceisio osgoi niwed sylweddol i'r cymeriad a'r cydbwysedd ieithyddol a grëir gan ddatblygiad amhriodol mewn cymuned.

**Goblygiadau i CDLl ar y Cyd (Adneuo)**

Dylai polisïau manwl yn y Cynllun Adneuo:

- Sicrhau bod gan ysgolion ddigon o gapasiti naill ai nawr neu yn y dyfodol i ddiwallu'r gofyn ychwanegol o ganlyniad i ddatblygiad preswyl newydd.
- Cynnwys mesurau i hwyluso darparu datblygiad newydd yn amserol (h.y. datblygu mewn camau)
- Gael eu cefnogi gan ganllawiau sy'n egluro'r gofyn i negodi ymrwymiadau cynllunio er mwyn sicrhau cyfraniadau addysgol gan ddatblygwyr mewn amgylchiadau priodol.
- Ystyried proses adrefnu ysgolion y Cyngor.

## 14. A yw'r strategaeth yn debygol o effeithio ar ofal iechyd lleol?

a) Bygwth / sicrhau cyfleusterau / gwasanaethau lleol drwy gyfrwng y Gymraeg?

### Cefndir

Mae argaeledd cyfleusterau gofal iechyd yn ffactor allweddol wrth i bobl benderfynu a ydynt am aros mewn ardal neu symud i ardal am y tro cyntaf. Mae hyn yn arbennig o wir am bobl hŷn ble mae canolfannau iechyd wedi dod yn fannau i gymdeithasu ac sy'n cefnogi rhwydweithiau lleol i rai sy'n siarad Cymraeg.

### Dadansoddiad Gwaelodlin

O ran darparwyr **gofal sylfaenol**, mae'r rhwydwaith lleol yng Ngwynedd a Môn yn cynnwys:

| | Gwynedd | Ynys Môn |
|---|---|---|
| **Practis Meddygon Teulu** | 43 | 20 |
| **Practis Deintyddion (gan gynnwys rhai preifat)** | 21 | 12 |
| **Fferyllfeydd** | 29 | 13 |
| **Optegwyr** | 21 | 6 |

*Gwefan Betsi Cadwaladr (Mehefin 2012)*

Mae darparwyr **gofal eilaidd** Gwynedd yn cynnwys **ysbytai lleol**, sef Ysbyty Gwynedd ym Mangor, sef yr ysbyty fwyaf a'r brif ganolfan weinyddol. Mae'n cynnwys ardal ddaearyddol enfawr sy'n ymestyn o Amlwch yn y gogledd i Dywyn yn y de ac o Bwllheli yn y gorllewin i Landudno yn y dwyrain. Ysbytai eraill lleol sy'n darparu gwasanaethau iechyd i drigolion Gwynedd ac Ynys Môn yw Ysbyty Llandudno, Ysbyty Maelor ac Ysbyty Bronglais ac mae'r rhain oll wedi'u lleoli tu allan i Ardal y Cynllun.

Caiff yr ysbytai hyn eu cefnogi gan rwydwaith o **ysbytai cymunedol:**

- Ysbyty Eryri, Caernarfon
- Ysbyty Bryn Beryl, Pwllheli
- Ysbyty Alltwen, Tremadog
- Ysbyty Dolgellau (Awdurdod Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri)
- Ysbyty Tywyn
- Ysbyty Ffestiniog, Blaenau Ffestiniog
- Ysbyty Cefni, Llangefni
- Ysbyty Penrhos Stanley, Caergybi

| Asesiad Effaith Ieithyddol |
| --- |
| Ystyriwyd darpariaeth gofal iechyd fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Strategaeth a Ffafrir sydd ar fin ei chyhoeddi. Cydnabyddir fod cynnydd yn y boblogaeth yn debygol o roi straen ychwanegol ar gapasiti cyfleusterau gofal iechyd presennol. Fodd bynnag, gellid lliniaru'r effaith hwn drwy ei gwneud hi'n ofynnol i ddatblygwyr gyfrannu tuag at wasanaethau o'r fath.<br><br>Lleolir y rhan fwyaf o wasanaethau a chyfleusterau iechyd allweddol yn y prif ganolfannau. Golyga hyn fod y strategaeth ofodol a ffafrir sy'n canolbwyntio cyfran uwch o ddatblygiadau yn y prif ganolfannau yn caniatáu i fwyafrif y boblogaeth gael mynediad da at y cyfleusterau hyn.<br><br>Ar y llaw arall, fodd bynnag, mae mynediad at wasanaethau iechyd mewn rhai ardaloedd gwledig yn wael. Mae'r Strategaeth anheddleoedd ddrafft ym Mholisi PS3 yn cyfeirio datblygiadau i rwydwaith o aneddleoedd a gefnogir gan rwydwaith cludiant cynaliadwy a thrwy hynny sicrhau fod preswylwyr unedau tai newydd â mynediad rhesymol at gyfleusterau a gwasanaethau. Mae'n bwysig fod y cynllun yn hwyluso datblygu rhwydwaith cludiant cynaliadwy sy'n gwella hygyrchedd yn yr ardaloedd hyn. Mae Polisi PS22 (Cludiant Cynaliadwy, datblygu a hygyrchedd) hefyd yn hwyluso gwelliannau mewn mynediad at wasanaethau a chyfleusterau. Yn ogystal, mae'r Strategaeth a Ffafrir sydd ar fin ei chyhoeddi'n hwyluso darparu cyfleusterau iechyd newydd. |
| **Goblygiadau i CDLl ar y Cyd (Adneuo)** |
| Dylai polisïau manwl yn y Cynllun Adneuo:<br><br>• Gael eu cefnogi gan ganllawiau ynghylch y gofyn am rwymedigaethau cynllunio er mwyn sicrhau fod y datblygwr yn darparu cyfleusterau angenrheidiol, neu'n cyfrannu tuag atynt, er mwyn diwallu anghenion y boblogaeth sy'n cynyddu.<br><br>• Hwyluso rhwydwaith cludiant cynaliadwy effeithlon yn ardal y Cynllun gan gynnwys ardaloedd gwledig. |

**15. A yw'r strategaeth yn debygol o effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau lleol megis siopau?**

a) Bygwth / sicrhau siopau lleol / swyddfeydd post / banciau / tafarndai mewn cymunedau Cymreig ac felly gorfodi rhai rhannau o'r boblogaeth i symud allan o'r ardal / gymuned, e.e. pobl hŷn, yr anabl neu bobl ifanc.

**Cefndir**

Mae argaeledd gwasanaethau a chyfleusterau lleol yn chwarae rhan bwysig mewn cynnal cymuned ffyniannus a chynorthwyo i gadw'r boblogaeth yn eu cymunedau neu i ddenu pobl â chysylltiadau lleol i ddychwelyd i ardal.

**Dadansoddiad Gwaelodlin**

**Nifer o fusnesau i bob dosbarth defnydd busnes (2009)**

| Canolfan (Gwynedd) | Dosbarth Defnydd Busnes A1, A2, A3 | Canolfan (Môn) | Dosbarth Defnydd Busnes A1, A2, A3 |
|---|---|---|---|
| Abermaw | 114 | Amlwch | 58 |
| Abersoch | 42 | Biwmares | 59 |
| Bangor | 268 | Benllech | 42 |
| Bethesda | 51 | Cemaes | 24 |
| Blaenau | 62 | Gaerwen | 6 |
| Caernarfon | 178 | Caergybi | 128 |
| Criccieth | 53 | Llanfair PG | 18 |
| Llanberis | 34 | Llangefni | 87 |
| Nefyn | 13 | Porthaethwy | 64 |
| Penrhyndeudraeth | 22 | Rhosneigr | 17 |
| Penygroes | 29 | Y Fali | 36 |
| Porthmadog | 129 | | |
| Pwllheli | 171 | | |
| Tywyn | 86 | | |

(Ffynhonnell: UPCC Gwynedd a Môn)

**Asesiad Effaith Ieithyddol**

Nid yw'r Strategaeth yn debygol o gael effaith andwyol ar y ddarpariaeth o wasanaethau lleol megis siopau yn y cyfnod hwn. Mae'r Strategaeth yn ceisio sicrhau y caiff datblygiadau eu dosbarthu er mwyn cryfhau'r rhwydwaith o aneddiadau yn unol â'r rolau a gynhwysir yn Hierarchaeth Aneddiadau'r Cynllun. Bydd y dull hwn yn cynorthwyo i gynnal y gymysgedd arbennig o gymeriad trefol / gwledig ardal y cynllun yn ogystal â'i chymeriad ieithyddol a diwylliannol nodedig.

Mae'r Strategaeth a Ffafrir sydd ar fin ei chyhoeddi wedi cymryd i ystyriaeth argaeledd gwasanaethau mewn aneddleoedd. Mae aneddleoedd wedi'u categoreiddio mewn hierarchaeth yn seiliedig ar argaeledd gwasanaethau sy'n diwallu gofynion y preswylwyr. Dylai hyn sicrhau na fydd gwasanaethau o fewn

| |
|---|
| cymunedau yn cael eu heffeithio'n andwyol gan lefelau amhriodol o ddatblygu.<br><br>Yn ogystal, bydd y Strategaeth yn sicrhau fod cymeriad unigol a swyddogaethau cyflenwol y canol trefi yn gwella drwy ddatblygiad, gwelliannau i'r stadau cyhoeddus, i gyfleusterau cludiant cyhoeddus ac i gysylltiadau cerddwyr / beicio. Yn ogystal, bydd yn helpu i sicrhau'r ddarpariaeth o isadeiledd, gwasanaethau a chyfleusterau sydd eu hangen i gynnal a gwella cymunedau. Yn benodol, mae Polisi PS10 (Canol Trefi a Manwerthu) â'r bwriad o ddiogelu siopau a gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig yn erbyn eu colli'n ddianghenraid a chefnogir cynigion ar gyfer gwasanaethau cymunedol amlbwrpas. |
| **Goblygiadau i CDLl ar y Cyd (Adneuo)** |
| Dylai polisïau manwl yn y Cynllun Adneuo:<br><br>• Geisio diogelu gwasanaethau a chyfleusterau lleol yn ardal y Cynllun mewn lleoliadau hygyrch.<br><br>• Diogelu a gwella cymeriad yr aneddiadau. |

| **16. A yw'r strategaeth â'r potensial i arwain at dyndra cymdeithasol, gwrthdaro neu rwygiadau difrifol yn y gymuned sy'n siarad Cymraeg?** |
|---|
| a) Ag effaith arwyddocaol anwastad ar wahanol rannau o'r gymuned leol, gyda'r potensial o roi mantais i rai grwpiau a rhoi eraill dan anfantais? |
| b) Amharu ar werthoedd traddodiadol rhannau penodol o'r gymuned? |
| **Cefndir** |
| Gall rhai mathau o ddatblygiad gael effaith negyddol ar gymunedau lleol ac arwain at dyndra cymdeithasol neu wrthdaro. Er enghraifft, gall canolfannau siopa newydd fygwth siopau lleol allai gael eu gwerthfawrogi'n fawr yn y gymuned. Gallai'r fath wrthdaro arwain at bobl gredu nad yw pryderon diwylliannol yn derbyn ystyriaeth a gallai hynny yn ei dro gael effaith torcalonnus mewn cymunedau Cymraeg. |
| **Dadansoddiad Gwaelodlin** |
| *Ynysiad Cymdeithasol*<br><br>Mae Ynys Môn a Gwynedd yn siroedd gwledig gan fwyaf; fodd bynnag, mae rhai rhannau yn sylweddol fwy gwledig nag eraill. «Mae nifer o gymunedau o fewn ardal y CDLl ar y Cyd yn destun menter Cymunedau'n Gyntaf ac mae ganddynt broblemau gan gynnwys diffyg siopau a gwasanaethau lleol eraill, problemau cludiant a chostau gwresogi cartrefi. Ceir hefyd glystyrau o gyfraddau diweithdra uchel a chartrefi sy'n hawlio credyd treth i deuluoedd sy'n gweithio yn rhai rhannau gwledig o Wynedd a rhannau gogledd orllewinol Ynys Môn.<br><br>*Allgáu Cymdeithasol*<br><br>Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) wedi dangos fod y mwyafrif o ardaloedd bychan Gwynedd yn llai difreintiedig na chyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, ceir mannau eithaf difreintiedig o fewn yr awdurdod, yn bennaf o ran tai a mynediad at wasanaethau. Yn y 10% o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) mwyaf difreintiedig Cymru, ceir nifer uwch na'r cyfartaledd o LSOAs yng Ngwynedd ar gyfer Tai (41%) a Mynediad (24%). Mae amddifadedd o ran mynediad at wasanaethau yn uwch mewn pentrefi bychain ac ardaloedd gwledig. Mae rhai ardaloedd o Benrhyn Llŷn yn arbennig o ddifreintiedig yn ôl dadansoddiad WIMD. Mae'r asesiad yn debyg yn Ynys Môn. Yn y 10% o ardaloedd cynnyrch ehangach haen is mwyaf difreintiedig yng Nghymru, ceir nifer uwch na'r cyfartaledd o LSOAs yn Ynys Môn ar gyfer Tai (10%) a Mynediad (18%). Roedd 55% o'r LSOAs yn Ynys Môn yn fwy difreintiedig na chyfartaledd Cymru. |
| **Asesiad Effaith Ieithyddol** |
| Bydd yr union effaith ar wahanol rannau o'r gymuned yn dibynnu ar leoliad y datblygiad a'r math o ddatblygiad. Fodd bynnag, gall dosbarthiad cymesur o ddatblygiad fod â'r potensial i leihau anghydraddoldebau drwy hwyluso dosbarthiad mwy cyfartal o ddatblygiad yn nhermau gofodol. Mae'n caniatáu datblygiad newydd |

| |
|---|
| cyfyngedig, yn enwedig tai yn y mwyafrif o aneddiadau ac yn cyfrannu at dwf organig yr anheddiad nad yw wedyn yn effeithio'n andwyol ar hyfywdra cymunedol. Yn ogystal, bydd yn cynorthwyo i gefnogi bywiogrwydd cymunedol a chefnogi cynhwysiad cymdeithasol ac yn ei dro cynorthwyo i gynnal gwerthoedd diwylliannol o fewn y cymunedau hynny.<br><br>Mae'r Strategaeth yn ceisio sicrhau y caiff datblygiadau eu dosbarthu er mwyn cryfhau'r rhwydwaith o aneddiadau yn unol â'r rolau a gynhwysir yn Hierarchaeth Aneddiadau'r Cynllun. Bydd y dull hwn yn cynorthwyo i gynnal y gymysgedd arbennig o gymeriad trefol / gwledig ardal y cynllun yn ogystal â'i chymeriad ieithyddol a diwylliannol nodedig.<br><br>Yn ogystal, mae Polisi PS14 (Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig) yn hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn ardal y Cynllun yn uniongyrchol ac yn ceisio osgoi unrhyw niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd ieithyddol cymuned a grëir gan ddatblygiad amhriodol. |
| **Goblygiadau i CDLl ar y Cyd (Adneuo)** |
| Dylai polisïau manwl yn y Cynllun Adneuo:<br><br>• hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol pob rhan o'r gymdeithas ac ni ddylai wahaniaethu yn erbyn unrhyw grŵp.<br><br>• ei gwneud yn ofynnol cael Asesiadau Effaith Ieithyddol fel rhan o geisiadau cynllunio sy'n debygol o gael effaith ar yr iaith Gymraeg. |

| **17. A yw'r strategaeth â'r potensial o arwain at newidiadau yn y traddodiad / diwylliant Cymreig?** |
|---|
| a) Â'r canlyniad bod aelwydydd sy'n siarad Cymraeg yn symud i ffwrdd o ardaloedd? |
| b) Arwain at gynnydd sylweddol mewn aelwydydd nad ydynt yn lleol ac nad ydynt yn siarad Cymraeg? |
| c) Arwain at erydiad mewn cysylltiadau teuluol neu rwydweithiau cymdeithasol eraill? |
| d) Arwain at newidiadau sylweddol i'r cyd-destun economaidd neu'r cyd-destun cymdeithasol a bygwth ffyrdd o fyw traddodiadol? |
| e) Effaith ar aelwydydd lleol sy'n siarad Cymraeg drwy gyflwyno / gyflymu newid cymdeithasol? |
| **Cefndir** |
| Gallai rhai mathau o ddatblygiad arwain at ddirywiad yn y nifer o siaradwyr Cymraeg neu arwain at gyflwyno rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg. |
| **Dadansoddiad Gwaelodlin** |
| Gweler dadansoddiad gwaelodlin ar gyfer meini prawf 1, 2, 3 a 10 uchod. |
| **Asesiad Effaith Ieithyddol** |
| Yn gyffredinol, mae'r Strategaeth yn annhebygol o arwain at newidiadau sylweddol yn y traddodiad a'r diwylliant Cymreig a allai gael effaith andwyol ar yr iaith.<br><br>Mae'r Strategaeth yn ceisio sicrhau y caiff datblygiadau eu dosbarthu er mwyn cryfhau'r rhwydwaith o aneddiadau yn unol â'r rolau a gynhwysir yn Hierarchaeth Aneddiadau'r Cynllun. Bydd y dull hwn yn cynorthwyo i gynnal y gymysgedd arbennig o gymeriad trefol / gwledig ardal y cynllun yn ogystal â'i chymeriad ieithyddol a diwylliannol nodedig.<br><br>Fel y nodir yn yr adrannau uchod, mae'r Strategaeth a Ffafrir sydd ar fin ei chyhoeddi yn cynorthwyo i gadw preswylwyr ifanc sy'n siarad Cymraeg yn eu cymunedau drwy hwyluso datblygu tai fforddiadwy a thrwy ddarparu cyfleoedd cyflogaeth. Yn ogystal, mae bywiogrwydd a hyfywdra cymunedol yn cael eu gwella drwy wahanol bolisïau yn y Strategaeth. Bydd y rhain yn cynorthwyo i gefnogi mentrau sy'n adeiladu cymunedau sefydlog, diogel, iach a chryf sy'n golygu parchu a gwella'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig. |
| **Goblygiadau i CDLl ar y Cyd (Adneuo)** |
| Dylai polisïau manwl sicrhau fod nodweddion y cymunedau presennol yn cael eu diogelu a'u gwella drwy hwyluso cyfleoedd tai a chyflogaeth ble y mae'r gofyn amdanynt. |

**18. A yw'r strategaeth yn debygol o gael effaith ar grwpiau gwirfoddol / gweithgareddau / ieuenctid lleol?**

a) Gorfodi pobl leol sy'n weithgar mewn grwpiau lleol i symud o'u cymunedau oherwydd:

- Cynnydd mewn diweithdra / straen economaidd?
- Cynnydd mewn prisiau tai /straen tai?

**Cefndir**

Mae grwpiau gwirfoddol, grwpiau gweithgareddau a grwpiau ieuenctid â dylanwad sylweddol ar yr iaith Gymraeg drwy eu bod yn darparu gweithgareddau a chefnogaeth i breswylwyr. Mae grwpiau o'r fath yn chwarae rhan bwysig mewn cynnal bywiogrwydd a lles cymunedol.

**Dadansoddiad Gwaelodlin**

Gweler dadansoddiad gwaelodlin ar gyfer meini prawf 9 a 12.

**Asesiad Effaith Ieithyddol**

Gweler asesiad o feini prawf 9 a 12.

**Goblygiadau i CDLl ar y Cyd (Adneuo)**

Gweler asesiad o feini prawf 9 a 12.